# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Hydref 2022

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (13:00-13:30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(13:30)

## 2 Papurau i'w nodi

**2.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: ymgynghoriad ar gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl**

(Tudalennau 3 - 18)

**2.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig**

(Tudalen 19)

**2.4 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Adroddiad ar bwysau costau byw**

(Tudalennau 20 - 21)

**2.5 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: yr argyfwng costau byw**

(Tudalennau 22 - 35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.6 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol – menywod mudol**

(Tudalennau 36 – 40)

**2.7 Gohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: monitro data mewn perthynas â darpariaeth iechyd meddwl i fenywod mudol**

(Tudalennau 41 – 43)

**2.8 Gohebiaeth â'r Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman: ymchwiliad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol – menywod mudol**

(Tudalennau 44 – 48)

**2.9 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE**

(Tudalennau 49 – 54)

**2.10 Gohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at yr Ysgrifennydd Parhaol: archwilio gosod amcanion llesiant**

(Tudalennau 55 – 67)

**2.11 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i'r Llywydd ynghylch y Bil Hawliau**

(Tudalennau 68 – 69)

**2.12 Gohebiaeth gan y Llywydd at y Cadeirydd ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

(Tudalennau 70 – 71)

## 3 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus: sesiwn dystiolaeth weinidogol

(13:30-15:00) (Tudalennau 72 – 120)

Hannah Blythyn: Dirprwy Weinidog, Partneriaeth Gymdeithasol

Neil Surman: Dirprwy Gyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol

Sue Hurrell: Pennaeth Caffael Gwaith Teg

Neil Buffin: Dirprwy Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Cyfreithiol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15:00)

5 **Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus: sesiwn dystiolaeth weinidogol – ystyried y dystiolaeth**

(15:00–15:30)

**EGWYL (15:30 – 15:45)**

6 **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol – menywod mudol – ystyried yr adroddiad drafft**

(15:45–16:45) (Tudalennau 121 - 169)

7 **Blaenraglen waith**

(16:45–17:00) (Tudalennau 170 - 174)

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

14 Gorffennaf 2022

Annwyl Jenny,

Y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus y mae'r ddyletswydd llesiant yn rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol iddynt. Ers i'r Ddeddf gael ei gwneud yn gyfraith, mae tirwedd y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi newid, felly mae'n gywir ein bod yn asesu a ddylid dynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol yn gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf. Anfonwyd llythyr at y Pwyllgor ym mis Mawrth, a oedd yn amlinellu'r cyd-destun a'n dull o ymdrin â'r adolygiad.

Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ochr yn ochr â datblygu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Y cyrff y bydd i Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol arfaethedig y Bil yn berthnasol iddynt fydd y cyrff hynny a restrir yn Adran 6 o'r Ddeddf fel rhai y mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddynt.

Yn unol â'r meini prawf a ddefnyddiwyd gennym yn 2015, rydym wedi nodi wyth corff cyhoeddus arall yng Nghymru y bwriadwn eu cynnwys yn y rhestr o gyrff y mae'r ddyletswydd llesiant yn y Ddeddf yn berthnasol iddynt. Heddiw, rydym wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y cynigion hyn, sydd i'w gweld yma ac sy'n dod i ben ar 20 Hydref. Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'r Pwyllgor ar yr adolygiad.


Yn gywir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
John Griffiths AS
Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

15 Gorffennaf 2022

Annwyl Jayne, Jenny a John

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 6 Mehefin 2022, rwy'n ysgrifennu atoch i roi diweddariad pellach ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Er gwybodaeth, atodaf grynodebau o'r materion sy'n codi o'n trafodaethau â phobl sydd â phrofiad personol o niwroamrywiaeth, ac o'n hymweliadau â Thîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) Cymru a phrosiect Beyond the Blue Barnardo's Cymru. Mae'r nodiadau hyn wedi'u cyhoeddi ar dudalen we'r ymchwiliad. Atodaf hefyd, er gwybodaeth gyfrinachol i chi, gopi o bapur briffio gwasanaeth Ymchwil y Senedd a baratowyd ar gyfer ein sesiwn dystiolaeth lafar ddiweddar ar 6 Gorffennaf.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl: diweddariad

### Y cefndir

Lansiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl ym mis Ionawr 2022. Roedd y cylch gorchwyl yn eang iawn, o ran ceisio nodi pa grwpiau oedd fwyaf tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd meddwl, pa rwystrau y maent yn eu hwynebu, a yw polisi Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i gydnabod anghenion y grwpiau hyn a mynd i'r afael â hwy, a beth arall sydd angen ei wneud.

Yn ôl y dystiolaeth a gawsom yn ysgrifenedig, drwy gyfarfodydd grwpiau ffocws ac yn ystod y sesiynau tystiolaeth lafar cychwynnol, ym mis Mawrth 2022 fe benderfynwyd canolbwyntio ar bedair thema a oedd yn dod i'r amlwg, sef: iechyd meddwl a chymdeithas; atebion cymunedol; effaith anghydraddoldebau iechyd meddwl ar bobl â chyflyrau niwroamrywiol; a rôl y gweithlu gofal iechyd a'r gweithlu ehangach.

Yn ystod tymor yr haf rydym wedi clywed tystiolaeth lafar gan randdeiliaid (ar 4 Mai, 19 Mai, 8 Mehefin a 6 Gorffennaf), wedi cynnal digwyddiad anffurfiol preifat i randdeiliaid ar brofiad pobl â chyflyrau niwroamrywiol a'u teuluoedd neu ofalwyr o anghydraddoldebau iechyd meddwl, ac wedi ymweld â phrosiectau a gwasanaethau sy'n gweithio yn eu cymunedau i gefnogi pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, a phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

### Y camau nesaf

Yn ystod toriad yr haf, bydd y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn cynnal cyfarfodydd **grwpiau ffocws gyda staff iechyd rheng flaen** i drafod: sut maent yn diwallu anghenion iechyd meddwl cymunedau amrywiol; a yw staff yn teimlo eu bod yn gallu adnabod a diwallu anghenion amrywiol; pa rwystrau all atal gweithio mwy effeithiol; rôl atal a hybu iechyd meddwl da; ac anghenion iechyd meddwl a lles y gweithlu ei hun. Cyhoeddir crynodeb o'r canfyddiadau yn yr hydref.

Rydym wedi sefydlu **grŵp cynghori ar-lein**, sy'n cynnwys pobl ag amrywiaeth o brofiadau bywyd gwahanol. Gofynnir i'r grŵp roi ei farn ar faterion sy'n dod i'r amlwg ar adegau penodol ac allweddol yn ystod yr ymchwiliad. Byddwn hefyd yn gofyn i aelodau o **Senedd Ieuenctid Cymru** rannu eu barn ar faterion sy'n dod i'r amlwg.

Bydd yr holl dystiolaeth a gasglwn yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys y diweddariad ysgrifenedig y gwnaethpwyd cais amdano ar y cyd â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y cynnydd a wnaed ar argymhellion allweddol gan bwyllgorau'r Bumed Senedd o ran iechyd meddwl, yn llywio **sesiwn dystiolaeth lafar gyda Llywodraeth Cymru** a gaiff ei chynnal yn nhymor yr hydref.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Anghydraddoldebau iechyd meddwl: trafodaeth â rhanddeiliaid

8 Mehefin 2022

## Y cefndir

**1.** Fel rhan o'n hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, ar 8 Mehefin 2022, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol drafodaeth anffurfiol breifat gyda phobl sydd â phrofiad o fyw â chyflyrau niwroamrywiol. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran am rannu eu barn, eu profiad a'u harbenigedd gyda ni. Hoffem hefyd ddiolch i'r Sefydliad ADHD, Autistic UK a Lleisiau Rhieni yng Nghymru am weithio gyda ni i nodi a chefnogi cyfranogwyr.

**2.** Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried:

1. Pa ffactorau sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwael ar gyfer pobl â chyflyrau niwroamrywiol (a'u gofalwyr/teuluoedd)? Beth yw effeithiau ehangach hyn (e.e. ar addysg, cyflogaeth).
2. A oes angen rhagor o ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o niwroamrywiaeth ymhlith y gweithlu gofal iechyd a'r gweithlu ehangach (gan gynnwys er enghraifft, y maes addysg, a gwasanaethau cymdeithasol).
3. Sut beth fyddai cymorth mwy effeithiol ar gyfer pobl â chyflyrau niwroamrywiol (a'u teuluoedd). Beth yw'r newidiadau allweddol sydd eu hangen?
4. Beth yw eich un neges allweddol ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor?

**3.** Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r materion a'r themâu a drafodwyd yn ystod y sesiwn. Nid yw'r ffaith bod mater yn cael ei nodi'n golygu bod y cyfranogwyr neu'r Pwyllgor, o reidrwydd, yn ei gymeradwyo.

## Rhwystrau ac anghydraddoldebau iechyd meddwl

**4.** Mae cyfran sylweddol o bobl yn ein cymdeithas yn niwroamrywiol. Bydd amgylchiadau a phrofiadau unigolion yn amrywio, a bydd y graddau a'r modd y maent yn profi rhwystrau ac anghydraddoldebau iechyd meddwl yn amrywio.

**5.** Mae gan bobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol yr un hawliau, a dylent gael yr un mynediad at gymorth a gwasanaethau â phobl niwro-nodweddiadol. Nodwyd bod sefydliadau fel Anabledd Cymru wedi cynnal ymgyrchoedd i helpu pobl anabl i ddeall eu hawliau, ac awgrymwyd y gallai ymgyrchoedd o'r fath sydd wedi'u targedu i gynorthwyo pobl niwroamrywiol fod o gymorth.

**6.** Clywsom fod angen i gymdeithas fod yn llawer mwy cynhwysol, a derbyn gwahaniaeth. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth annigonol o niwroamrywiaeth mewn cymdeithas, ac mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn creu rhwystrau a all effeithio'n anghymesur ar bobl niwroamrywiol, a bydd trawma a goblygiadau niweidiol cyfatebol i'w hiechyd meddwl a'u lles. Mae rhwystrau o'r fath yn cynnwys ceisio cyd-fynd â normau cymdeithasol niwro-nodweddiadol, bwlio, gwahaniaethu, a galluogrwydd, yn ogystal â gorfod brwydro'n barhaus i gael eu clywed, eu parchu a chael y cymorth sydd ei angen arnynt, neu sydd ei angen ar eu plentyn, aelod o'r teulu, neu berson y maent yn darparu gofal iddo. Gall pobl sy'n niwroamrywiol hefyd brofi amrywiaeth o anghydraddoldebau, gan gynnwys lefelau uwch o ddiweithdra, disgwyliad oes is, neu risg uwch o brofi dibyniaeth, beichiogrwydd cynnar, trais domestig neu hunanladdiad.

**7.** Gall effaith gronnus y ffactorau hyn gael ei gwaethygu gan ddiffyg cymorth i ddiwallu anghenion pobl. Awgrymwyd bod trawma a materion iechyd meddwl eraill yn symptom o'r rhwystrau a'r stigma y mae pobl wedi'u hwynebu, ac yn symptom o gymorth annigonol neu gymorth nad yw'n bodoli i bobl sydd â chyflyrau niwroamrywiol.

## Croestoriad

**8.** Mae dealltwriaeth o niwroamrywiaeth a chyflyrau niwroddatblygiadol a'r gwasanaethau sydd wedi'u datblygu i gefnogi pobl yn seiliedig, i raddau helaeth, ar brofiad pobl sy'n ddynion, yn wyn ac yn ddosbarth canol. Mae'n bwysig cydnabod bod pobl sy'n niwroamrywiol hefyd yn amrywiol mewn ffyrdd eraill, a gall yr agweddau eraill hyn ar eu hamrywiaeth hefyd achosi risg o wahaniaethu neu stigmateiddio.

**9.** Nid oes digon yn hysbys am brofiad neu anghenion grwpiau neu gymunedau eraill, er enghraifft menywod a merched, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol-economaidd mwy difreintiedig, pobl sy'n LGBTQ+, neu bobl nad oes ganddynt y sgiliau neu'r adnoddau i ddod o hyd i wahanol wasanaethau neu lwybrau.

Clywsom y gallai menywod a merched, er enghraifft, fod yn fwy tebygol o 'guddio' eu nodweddion niwroamrywiol a chadw eu trallod iddyn nhw eu hunain.

**10.** Mae angen rhagor o ddealltwriaeth o sut y gall nodweddion sy'n gysylltiedig â chyflyrau niwroddatblygiadol, a'r heriau cymdeithasol neu emosiynol a all godi o ddod ar draws normau niwro-nodweddiadol, effeithio ar bobl ifanc â nodweddion gwahanol, gan gynnwys effaith gronnus nodweddion croestoriadol. Byddai hyn yn helpu i wrthsefyll rhagfarnau ac yn gwneud yn siŵr bod pob 'dysgwr sy'n peri pryder' yn cael ei adnabod a'i drin yn deg.

## Teuluoedd, rhieni a gofalwyr

**11.** Mae angen i weithwyr proffesiynol a gwasanaethau wrando ar rieni. Dywed rhieni eu bod teimlo'n aml nad ydynt yn cael eu credu, er mai nhw sy'n adnabod eu plentyn, ac anawsterau a chryfderau eu plentyn, orau.

**12.** Gall teuluoedd deimlo bod yn rhaid iddynt ddod yn arbenigwyr ar gyflwr eu plentyn neu'r aelod o'u teulu. Mae rhieni, teuluoedd a gofalwyr sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth yn fwy tebygol o adnabod a oes gan rywun yn eu teulu neu rywun y maent yn darparu gofal ar eu cyfer gyflwr niwroamrywiol. Ni fydd gan bob teulu'r ddealltwriaeth hon, a gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau, ond mae'n bwysig grymuso pobl a chymunedau i ddod o hyd i'r cymorth y gall fod ei angen arnynt a chael mynediad ato.

**13.** Mae'n bosibl y bydd gan rieni sy'n niwroamrywiol eu hunain well dealltwriaeth o'r materion a brofir gan blant sy'n niwroamrywiol na rhieni sy'n niwro-nodweddiadol. Gall rhieni niwroamrywiol hefyd, fodd bynnag, wynebu rhagor o heriau wrth gefnogi eu plant wrth iddynt hefyd reoli eu cyflwr eu hunain.

## Diagnosis a throthwyon

**14.** Yn aml, gellir gweld diagnosis a'r 'label' sy'n deillio ohono fel tocyn aur, fel petai. Gall diagnosis helpu pobl, er enghraifft, i gael cymorth mewn ysgolion, neu ymyriadau fferyllol neu elfennau eraill o'r llwybr meddygol a all helpu i ddiwallu eu hanghenion. Clywsom alwadau am wasanaeth diagnosis ADHD i oedolion yng Nghymru, ac am gymorth cyn diagnosis i bobl sy'n aros am ddiagnosis niwroddatblygiadol.

**15.** Hyd yn oed pan fydd pobl yn gallu cael diagnosis, nid ydynt bob amser yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gallai'r rhesymau am hyn gynnwys:

- Diffyg capasiti o fewn y gwasanaethau, neu amseroedd aros hir.

- Gall diagnosis ar gyfer un cyflwr fethu ag ystyried cyflyrau eraill sy'n cyd-ddigwydd y gallai'r unigolyn hefyd fod angen cymorth ar eu cyfer.

- Camddiagnosis, a all wedyn arwain at gymorth amhriodol neu feddyginiaeth a all fethu â diwallu anghenion yr unigolyn neu achosi niwed.

- Y lefel y gosodir trothwyon difrifoldeb arni. Y canlyniad, o bosibl, yw eithrio rhai plant, pobl ifanc neu oedolion rhag cael cymorth, gan roi'r neges o bosibl nad yw anghenion rhai pobl o bwys. Gall hyn gynnwys y 'canol coll' fel y'i nodwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd yn ei adroddiad 'Cadernid Meddwl'.

**16.** Yn ogystal, ni fydd pawb sy'n niwroamrywiol, sydd â nodweddion niwroamrywiol neu sy'n arddangos ymddygiadau niwroamrywiol eisiau neu angen cael diagnosis neu 'label'. Dewis arall yw dull gweithredu yn ôl anghenion, sy'n canolbwyntio ar ba gyngor neu gymorth y gallai fod ei angen ar unigolyn i reoli ei gyflwr niwroddatblygiadol a'i iechyd meddwl ei hun yn y gymuned.

## Mynediad at wasanaethau gofal iechyd

**17.** Nid yw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol bob amser yn dangos dealltwriaeth, yn enwedig os nad yw'r person wedi cael diagnosis ffurfiol. Hefyd, mae pobl yn cael eu symud drwy'r system, gan weld gweithwyr proffesiynol niferus cyn iddynt gael cyfle i feithrin perthynas, a heb y berthynas honno, mae pobl niwroamrywiol yn ei chael hi'n anodd iawn ymgysylltu.

**18.** Mae pobl niwroamrywiol yn aml yn cael trafferth i gael mynediad at wasanaethau gofal cychwynnol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd meddygon teulu yn gofyn i gleifion ffonio ar amser penodol i sicrhau apwyntiad (e.e. am 8.00) ond mae pobl niwroamrywiol yn ei chael hi'n anodd gwneud galwadau ffôn ac yn aml maent yn ei chael hi'n anodd codi'n gynnar, felly mae llawer yn cael eu rhwystro rhag ceisio cael apwyntiad.

**19.** Gall adrannau Damweiniau ac Achosion Brys fod yn amgylchedd gelyniaethus i berson niwroamrywiol oherwydd y sŵn, y goleuadau llachar, nifer y bobl sydd yno, ac ati.

## Mynediad at gymorth iechyd meddwl arbenigol

**20.** Pan fydd pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau, yn rhy aml nid oes gan y bobl sy'n darparu gwasanaethau ddigon o wybodaeth nac ymwybyddiaeth o sut i gyfathrebu'n effeithiol â phobl niwroamrywiol. Mae gwasanaethau hefyd yn rhy unigol, ac mae diffyg cysylltiad rhwng timau niwroddatblygiadol a thimau iechyd meddwl, yn hytrach na bod gwasanaethau iechyd meddwl, gofal cymdeithasol ac addysg yn cydweithio i gefnogi pobl.

**21.** Gall gwasanaethau hefyd fethu â gweld pobl fel unigolion yn hytrach nag fel eu diagnosis neu gyflwr, ac o ganlyniad, mewn rhai achosion, efallai na fydd natur y cymorth a gynigir gan wasanaethau iechyd meddwl, er enghraifft therapïau grŵp neu waith, yn addas ar gyfer pobl niwroamrywiol. . Fodd bynnag, yn lle cynnig dewisiadau amgen neu addasu eu dulliau, gall gwasanaethau ddisgrifio unigolion fel rhai heriol neu amharod i ymgysylltu.

**22.** Er bod y mynediad at wasanaethau dros y rhyngrwyd yn ystod y pandemig wedi'i groesawu, ni ddylai gymryd lle rhyngweithio dynol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad oes gan bawb sydd angen mynediad at wasanaethau fynediad at y rhyngrwyd.

**23.** Gall y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wrthod atgyfeiriadau ar gyfer plant neu bobl ifanc sy'n niwroamrywiol ac sydd ag anawsterau iechyd meddwl eraill hefyd, oherwydd gellir ystyried y rhain fel canlyniad anochel cyflyrau niwroddatblygiadol. Gall hyn gynnwys plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio neu sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad. Gellir gwrthod cymorth i oedolion hefyd. Clywsom enghreifftiau o oedolion yn cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl cyn gynted ag y cawsant ddiagnosis o awtistiaeth.

## Cwynion

**24.** Awgrymwyd y dylai llwybr fod ar gael i rieni, teuluoedd ac unigolion adrodd am eu profiadau o wasanaethau lleol yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru pan fydd pethau'n mynd o chwith, gan y gallai'r llwybrau presennol ar gyfer cwynion fod yn araf ac yn anodd dod o hyd iddynt, yn enwedig i bobl sy'n niwroamrywiol, neu sy'n gofalu am rywun sy'n niwroamrywiol. Gall hyn, ynddo'i hun, gael effaith andwyol ar iechyd meddwl pobl. Clywsom hefyd fod angen i eiriolwyr fod ar gael sy'n deall niwroamrywiaeth, profiadau pobl niwroamrywiol, a sut i gyfathrebu'n effeithiol.

## Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

**25.** Roedd galwadau pendant am hyfforddiant gorfodol i bobl sy'n gweithio ym myd addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr heddlu, i gynyddu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o niwroamrywiaeth a chyflyrau niwroddatblygiadol. Awgrymwyd bod awydd ymhlith gweithwyr proffesiynol i dderbyn hyfforddiant fel eu bod yn gallu darparu gwasanaethau a chymorth gwell a mwy effeithiol.

**26.** Ni ddylai hyfforddiant o'r fath ymwneud â chyflyrau penodol yn unig – dylai ganolbwyntio ar sut i gefnogi a helpu pobl, a dylai ddatblygu agweddau a diwylliannau cadarnhaol, adeiladol a chymwynasgar. Er enghraifft, gallai gynnwys sut i gyfathrebu'n effeithiol, pa iaith a therminoleg sy'n briodol, sut i addasu neu deilwra gwasanaethau a chymorth i ddiwallu anghenion pobl

niwroamrywiol, a sut i sicrhau bod gwasanaethau a chymorth yn galluogi pobl niwroamrywiol yn hytrach na'u 'hanalluogi'. Efallai y bydd angen hyfforddiant sy'n benodol i rôl yn ogystal â hyfforddiant cyffredinol, er enghraifft hyfforddiant penodol i athrawon fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol fel athrawon. Rhaid i bobl niwroamrywiol fod yn rhan o'r gwaith o ddylunio a darparu unrhyw hyfforddiant, yn ogystal â chynllunio gwasanaethau.

**27.** Codwyd pryderon hefyd am ddiwylliannau gweithio o fewn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys diffyg cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd, gelyniaeth fewnol, a materion hirsefydlog yn ymwneud â chyflog ac amodau, yn enwedig ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gyflogau is, gan gynnwys gofalwyr, porthorion a glanhawyr.

## Addysg ac ysgolion

**28.** Mae'n beth cyffredin i blant a phobl ifanc niwroamrywiol gael amgylchedd yr ysgol yn anodd. Cyn y pandemig COVID-19, os oedd plentyn yn cael trafferth mynychu'r ysgol, nid oedd ysgolion yn aml yn gallu darparu unrhyw adnoddau i'w helpu i barhau i ddysgu gartref. Pe gallai ysgolion barhau i ddarparu adnoddau ar-lein (er enghraifft, gwersi wedi'u recordio ymlaen llaw) i blant ar adegau pan na allant fod yn yr ysgol, byddai hyn yn helpu i sicrhau na chollir y cysylltiad â'r ysgol na'r dysgu.

**29.** Fel y nodwyd yn gynharach, mae ysgolion yn aml yn gofyn am ddiagnosis o gyflwr niwroamrywiol cyn y gellir rhoi cymorth mwy ffurfiol ar waith. Mae angen gwell cymorth cyn diagnosis a strategaethau mewn ysgolion (ac yn gyffredinol), yn enwedig oherwydd y gall amseroedd aros am asesiad fod yn ddwy flynedd neu ragor.

**30.** Roedd cefnogaeth i'r dull gweithredu system gyfan o ran iechyd meddwl mewn ysgolion, a ffocws ar ddilyn trywydd uwch i fynd i'r afael ag achosion iechyd meddwl gwael. Roedd galwadau am ddefnyddio dull 'dilyn trywydd uwch' ar gyfer niwroamrywiaeth, er mwyn helpu i nodi pobl a allai fod yn niwroamrywiol neu sydd â chyflwr niwroamrywiol yn iau, a chanolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion. Awgrymwyd y gellid asio hyn â model NEST/NYTH, diwygiadau ADY (anghenion dysgu ychwanegol) a'r dull ysgol gyfan o ran iechyd meddwl, a bod yn rhan o fodel 'cymorth cynnar', wedi'i gefnogi gan ymyriadau therapiwtig sydd ar gael mewn cymunedau.

**31.** Awgrymwyd dulliau eraill hefyd i wella cymorth mewn ysgolion, a lleihau'r risg y bydd problemau iechyd meddwl yn datblygu ar gyfer plant, pobl ifanc a staff ysgol, yn cynnwys:

- Hyfforddi a grymuso teuluoedd i adnabod a rheoli niwroamrywiaeth, a chefnogi plant a phobl ifanc i gyfathrebu ac i ddatblygu eu cryfderau, er enghraifft drwy addysgu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar sut i gyd-reoleiddio emosiynau ac

ymddygiadau. Gall dull gweithredu teulu cyfan fod yn effeithiol iawn wrth leihau risgiau trawma neu brofiadau niweidiol.

- Ysgogi newid diwylliannol a newid agwedd, drwy gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth athrawon o niwroamrywiaeth. Yn ogystal â gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc niwroamrywiol yn well (p'un a ydynt wedi cael diagnosis ai peidio), byddai hyn hefyd yn eu helpu i nodi 'dysgwyr sy'n peri pryder' ac yn darparu'r cymorth y gallai fod ei angen, yn hytrach na stigmateiddio neu gosbi ymddygiad neu nodweddion a all fod yn arwydd o drallod neu angen heb ei ddiwallu.

- Asesiad digidol gan ddefnyddio'r offeryn a ddatblygwyd yn sgil y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc o broffiliau gwybyddol plant a phobl ifanc a nodwyd gan rieni neu ysgolion fel rhai sy'n arddangos arwyddion o drallod, er mwyn rhoi ymyriadau therapiwtig ar waith.

- Mabwysiadu mesurau sy'n sensitif i niwroamrywiaeth, fel caniatáu i blant symud o gwmpas mewn ystafelloedd dosbarth, trefnu seibiannau aml, darparu deunyddiau dysgu gweledol, dull atgyfnerthu cadarnhaol yn hytrach na negyddiaeth neu gerydd, a ffocws ar ddatblygu perthnasoedd ac ati.

- Datblygu mwy o werthfawrogiad o wahanol arddulliau dysgu. Ni all pawb ddilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig, ond dysgu drwy ddefnyddio eu dwylo/ a gwneud. Ar hyn o bryd mae diffyg darpariaeth cinesthetig, ac o ganlyniad mae plant ag awtistiaeth yn colli cyfleoedd.

- Newid y dull arolygu i sicrhau bod ysgolion yn gallu defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau a sgiliau sy'n helpu plant a phobl ifanc i wneud yn fawr o'u cryfderau a datblygu eu sgiliau.

## Cyflogaeth

**32.** Mae pobl niwroamrywiol yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth neu mewn addysg neu hyfforddiant. Gallant wynebu rhwystrau wrth lywio prosesau neu lwybrau at gyflogaeth, gan gynnwys cyfweliadau swyddi. Gall hyn effeithio ar iechyd meddwl a lles unigolion, er enghraifft o ran hunan-barch a hunan hyder, ond hefyd o ganlyniad i lai o allu i ennill incwm. Byddai mynd i'r afael â rhagfarnau strwythurol neu anghydraddoldebau yn lleihau'r risg o ddatblygu problemau iechyd meddwl, a'r angen i gael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

**33.** Mae angen i gyflogwyr gynnig rhagor o hyblygrwydd. Efallai bod y trefniadau gweithio o gartref hyblyg sydd wedi bod yn berthnasol i lawer o bobl yn ystod y pandemig wedi bod o fudd arbennig i rai pobl â chyflyrau niwroamrywiol, a all gael trafferth gydag amgylchedd y swyddfa er enghraifft.

**34.** Hefyd, byddai manteision sylweddol i gymdeithas a'r economi o ddefnyddio cryfderau a doniau pobl sy'n niwroamrywiol. Gall fod gan bobl ag awtistiaeth alluoedd dadansoddol cryf, gall pobl ag ADHD ddod ag egni a brwdfrydedd creadigol, a gall pobl â dyslecsia - a allai fod yn fwy tebygol o feddwl yn weledol - ddod â phersbectif amgen o gymharu â phobl sy'n niwroamrywiol mewn ffyrdd eraill neu sy'n niwronodweddiadol.

**35.** Gall pobl niwroamrywiol fod yn dda iawn yn eu swydd ond gallant gael trafferth gyda phethau fel cyrraedd y gwaith ar amser, llenwi taflenni amser, ffurflenni, ac ati ac nid yw llawer o gyflogwyr yn fodlon cyfaddawdu ar y pethau hynny na chynnig y cymorth sydd ei angen i oresgyn problemau o'r fath. . Awgrymwyd bod polisïau Adnoddau Dynol yn aml yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn y cyflogwr rhag ymgyfreitha, yn hytrach na chefnogi gweithwyr.

## Gwahardd o'r ysgol, troseddau ieuenctid a'r system cyfiawnder troseddol

**36.** Gall pobl sy'n niwroamrywiol ac sy'n profi iechyd meddwl gwael fod yn fwy tebygol o brofi gwaharddiadau o'r ysgol, neu ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys o ganlyniad i droseddau ieuenctid. Nodwyd bod amcangyfrif bod 1 o bob 3 o bobl mewn carchardai yn niwroamrywiol. Er mai prin yw'r ymchwil a wnaed yn hyn o beth, mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod pobl niwroamrywiol yn fwy tebygol o brofi ffactorau risg fel teuluoedd yn chwalu neu gamddefnyddio sylweddau, sy'n fwy cyffredin ymhlith poblogaeth carchardai.

**37.** Gall diffyg dealltwriaeth neu ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, gan gynnwys sut i addasu dulliau cyfathrebu'n briodol, gael goblygiadau gwirioneddol, er enghraifft os nad yw person yn gallu gwneud cyswllt llygad, neu gofio digwyddiadau mewn ffordd linellol, arwain efallai iddynt fod yn llai tebygol o gael eu credu pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r heddlu neu rannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol. Mae modd defnyddio technegau fel y Cyfrif Tystion yn Gyntaf (WAFA)[1] i adlewyrchu'r ffordd y mae tystion ag awtistiaeth yn prosesu gwybodaeth yn y cof, ond nid yw hyn yn cael ei ddefnyddio'n eang.

[1] Y Cyfrif Tystion yn Gyntaf (WAFA): Techneg newydd ar gyfer cyfweld â thystion a dioddefwyr ag awtistiaeth - porth ymchwil Prifysgol Caerfaddon

## Ymchwil

**38.** Roedd galwadau am ragor o ffocws ar waith ymchwil cymdeithasol i ddeall rhagor am sut mae pobl niwroamrywiol ac unigolion ag awtistiaeth yn gweld y byd, yn hytrach na chanolbwyntio'n bennaf ar y model meddygol o niwroamrywiaeth.

## Dulliau gweithredu o ran deddfwriaeth a pholisi

**39.** Dylai'r dulliau o ran deddfwriaeth a pholisi o ymdrin â niwroamrywiaeth, er enghraifft y Cod Ymarfer ar Awtistiaeth, fod yn gynhwysol ac ystyried yr ystod lawn o gyflyrau niwroamrywiol eraill (a natur y gorgyffwrdd aml rhyngddynt). Dylid defnyddio dulliau o'r fath mewn lleoliadau addysg yn ogystal â mewn cymunedau, a hefyd mewn gofal cychwynnol i helpu i adnabod pobl cyn gynted â phosibl.

**40.** Mae angen rhagor o gydnabyddiaeth o effaith prosiectau, sefydliadau neu wasanaethau effeithiol a llwyddiannus. Pan mae prosiectau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd bywyd a lles defnyddwyr gwasanaethau (a phan gânt eu darparu gan bobl sy'n niwroamrywiol eu hunain, ar ansawdd bywyd a lles eu staff) dylid rhannu arfer da ac arloesedd. Mae angen cydnabod hefyd bod llawer o'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr ac mae angen cymorth arnynt eu hunain i allu parhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

**41.** Roedd galwadau am gynghrair niwroamrywiaeth Cymru gyfan i ddod ag ystod amrywiol o leisiau a safbwyntiau gan bobl sy'n niwroamrywiol, arbenigwyr, a sefydliadau sy'n gweithio yn y maes at ei gilydd. Rôl y gynghrair fyddai sicrhau bod pobl niwroamrywiol yn ymwneud â datblygu a fframio deddfwriaeth, polisïau a gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf. Awgrymwyd y dylai'r gynghrair gael ei hadlewyrchu yn strwythurau Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu hystyried ar sail trawsbortffolio. Gallai hwn fod yn un Gweinidog â chyfrifoldeb am niwroamrywiaeth, neu'n fforwm neu weithgor rhyng-weinidogol.

**42.** Cafwyd neges glir bod angen i wleidyddion o bob plaid weithio gyda'i gilydd i sicrhau y ceir newid diwylliannol a chymdeithasol, yn ogystal â sicrhau bod y polisi a'r ddeddfwriaeth gywir yn eu lle wedi'u cefnogi gan gyllid priodol. Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylai pob Aelod o'r Senedd gael hyfforddiant ar niwroamrywiaeth sy'n canolbwyntio ar fywydau pobl, nid canolbwyntio ar gyflyrau gwahanol yn unig.

# Anghydraddoldebau iechyd meddwl: ymweliad

23 Mehefin 2022

## Cefndir

**1.** Fel rhan o'n hymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl, aeth y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ymweld ag EYST Cymru yn Abertawe, a phrosiect Beyond the Blue Barnardo's Cymru yng Nghastell-nedd ar 23 Mehefin 2022.

**2.** Rydym yn ddiolchgar i'r ddau sefydliad am eu croeso cynnes, ac i'r staff a defnyddwyr y gwasanaethau am roi eu barn a rhannu eu profiadau a'u harbenigedd â ni.

**3.** Mae'r nodyn hwn yn crynhoi'r materion a'r themâu a gododd yn ystod y sesiwn. Nid yw'r ffaith bod mater yn cael ei nodi'n golygu bod y cyfranogwyr neu'r Pwyllgor, o reidrwydd, yn ei gymeradwyo.

## EYST Cymru

### Materion sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant

**4.** Gall pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol wynebu hiliaeth a gwahaniaethau yn eu bywydau bob dydd. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant.

**5.** Mae gan bobl sy'n cysylltu ag EYST amrywiaeth o broblemau'n aml, a gall fod yn anodd i staff wybod pa broblem i ymdrin â hi'n gyntaf. Mae llawer o'r problemau y maent yn eu hwynebu - ee iechyd, tai, y system budd-daliadau, teulu'n chwalu - yn cael effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl.

**6.** Gall cymunedau ethnig lleiafrifol wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth. Mae angen mwy o gynrychiolaeth o'r cymunedau hyn mewn ysgolion ac ym maes addysg bellach/uwch ac yn yr amrywiaeth eang o yrfaoedd. Mae angen unigolion sy'n esiamplau da i bobl ifanc uniaethu â nhw.

## Effaith prosiectau cymunedol

**7.** Mae EYST yn cynnig man diogel lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu ymddwyn yn naturiol, heb orfod ateb cwestiynau personol ynghylch, er enghraifft, sut y maent yn edrych, beth y maent yn ei wisgo. Mae hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac i'r rhai y mae EYST yn eu cyflogi.

**8.** Mae EYST yn achubiaeth i'r cymunedau y mae'n eu helpu, a hwn, yn aml, yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhai sy'n chwilio am gymorth. Mae amrywiaeth fawr yn y cymunedau y mae EYST yn eu cynorthwyo. Mae EYST hefyd yn cynnig cymorth i sefydliadau eraill y mae angen eu harbenigedd arnynt.

## Effaith ar staff a darparwyr gwasanaethau

**9.** Yn aml mae'n rhaid i staff EYST weithio/darparu gwasanaethau y tu allan i'w rôl graidd gan nad oes gwasanaethau eraill i ddiwallu anghenion cymunedau amrywiol. Dwy enghraifft allweddol yw gwasanaethau cyfieithu i bobl sy'n ceisio gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill, a gwasanaethau cwnsela sy'n ymwybodol o ddiwylliant. Mae staff EYST yn gweld bod angen darparu gwasanaeth cwnsela i'r rhai y maent yn eu cynorthwyo, er nad ydynt wedi'u hyfforddi i wneud hynny. Gall darparu gwasanaeth cyfieithu neu gwnsela ar gyfer pobl sydd wedi cael profiad trawmatig effeithio ar staff EYST, gan fod hynny'n aml yn peri iddynt ail-fyw eu profiadau trawmatig eu hunain. Gall hynny effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain. Mae angen gwneud yn siŵr bod staff yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddoi'r gwasanaethau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

## Ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus

**10.** Mae diffyg ymwybyddiaeth/cymhwysedd diwylliannol ymhlith staff gwasanaethau cyhoeddus (a diffyg amrywiaeth). Mae hyn yn allweddol i'r modd y mae EYST yn llwyddo i gynorthwyo cymunedau amrywiol – mae'r rhai y maent yn eu cynorthwyo'n gallu uniaethu â'r staff, ac mae'r staff yn deall eu diwylliant a'r hyn sy'n bwysig iddynt.

**11.** Fodd bynnag, gall gweithwyr cymorth ieuenctid EYST ei chael yn anodd cael y gwasanaethau statudol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) i ymgysylltu â nhw mewn modd amserol, ac maent yn teimlo nad oes ganddynt yr hygrededd / nad ydynt yn cael y cydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu – ac sydd eu hangen arnynt – er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r cymorth angenrheidiol i eraill. Mae ymyrraeth gynnar, a threfnu cymorth i bobl cyn i'w problemau waethygu, yn allweddol. Clywsom hanesion gofidus am bobl yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu'n marw drwy hunanladdiad oherwydd nad oedd y cymorth priodol ar gael ar yr adeg iawn.

**12.** Clywsom hefyd enghreifftiau calonogol o EYST ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n dda i ddarparu cymorth effeithiol ac amserol i bobl ifanc yn ardal Gwent. Nodwyd bod y gallu i gael cymorth a gwasanaethau'n amrywio'n arw rhwng un ardal ddaearyddol a'r llall.

## Gwasanaethau cyfieithu

**13.** Mae prinder gwasanaethau cyfieithu'n broblem fawr. Nid yw'n anghyffredin i blant ifanc orfod cyfieithu ar gyfer eu rhieni yn ystod apwyntiad meddygol er enghraifft. Mae hyn yn arbennig o ofidus a thrawmatig wrth orfod trafod materion fel trais. Hefyd, gall iaith feddygol fod yn anodd i bobl ei deall a'i dehongli, a gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol os nad yw pobl wedyn yn cael y driniaeth gywir neu'n cymryd meddyginiaeth yn anghywir er enghraifft. Fel y nodwyd uchod, er nad yw staff EYST yn gyfieithwyr hyfforddedig, maent yn aml yn gorfod cynnig gwasanaeth cyfieithu, a hynny'n aml yn eu hail neu drydedd iaith. Trafodwyd yr angen i ddarparu gwasanaeth cyfieithu meddygol. Mae rhwystr ieithyddol sylweddol yn y system brys bennu, gan gynnwys apwyntiadau meddygon teulu a system 111 y GIG - gall y rhain fod yn anodd iawn i rai eu defnyddio.

## Iechyd meddwl: dealltwriaeth a therminoleg

**14.** Mae'n bosibl y bydd gan gymunedau gwahanol ddealltwriaeth wahanol o 'iechyd meddwl' (ac iaith wahanol yn ymwneud â hyn). Mae stigma ynghlwm wrth iechyd meddwl yn aml. Mewn rhai cymunedau er enghraifft, credir bod y diafol wedi meddiannu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Yn y cymunedau hyn, mae llai o stigma ynghlwm wrth hynny na salwch meddwl.

## Effaith y pandemig ar iechyd meddwl

**15.** O ganlyniad i'r pandemig, gwelwyd cynnydd mawr mewn anawsterau iechyd meddwl ymhlith y cymunedau y mae EYST yn eu cynorthwyo. Mae hyn yn cynnwys y nifer sy'n hunan-niweidio a'r nifer sy'n ystyried hunanladdiad. Mae unigrwydd ac unigedd hefyd wedi cynyddu Mae cefnogaeth teulu a chymuned yn wirioneddol bwysig ymhlith grwpiau ethnig lleiafrifol, ac mae hyn yn rhan hanfodol o'r gwaith o ddiogelu iechyd meddwl a llesiant pobl. Gwelwyd y gefogaeth honno'n lleihau'n arw yn ystod cyfyngiadau'r pandemig.

## Cyllid cynaliadwy

**16.** Mae'r galw am wasanaethau EYST yn llawer mwy na'i allu i ddarparu'r gwasanaethau hynny. Nid oes prinder pobl i'w recriwtio, ond mae angen cyllid mwy hirdymor. Prinder cyllid cynaliadwy yw un o'r prif broblemau. Mae staff yn treulio cryn dipyn o amser yn paratoi ceisiadau am arian ar gyfer prosiectau ar ddiwedd y cyfnod ariannu, hyd yn oed ar gyfer y

prosiectau hynny y profwyd eisoes eu bod yn llwyddiannus. Byddai cyllid craidd yn galluogi EYST i ddatblygu gwasanaethau ymhellach, a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau staff.

### Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

**17.** Efallai bod ceiswyr lloches a ffoaduriaid eisoes wedi cael profiadau hynod drawmatig. Mae'r brwydrau y gallant eu hwynebu ar ôl cyrraedd y DU yn ychwanegu at eu problemau. Mae hyn yn cynnwys yr anawsterau sy’n eu hwynebu wrth geisio cael gofal iechyd a gwasanaethau eraill (gan gynnwys deintyddiaeth ac optometreg), a hefyd unigrwydd, prinder rhwydweithiau cymorth, a’r teimlad nad ydynt yn perthyn. Mae ceiswyr lloches yn aros am gyfnodau hir tra bod eu ceisiadau'n cael eu prosesu, ac yn cael eu gadael mewn ansicrwydd. Yn ogystal â'r pryder y mae hyn yn ei achosi, mae hefyd yn cael effaith ehangach ee bydd pobl yn colli eu sgiliau etc gan na allant weithio.

**18.** Maent yn ail-fyw eu trawma wrth iddynt orfod ailadrodd eu stori wrth bobl/asiantaethau gwahanol. Mae llawer o ffoaduriaid o wledydd eraill (e.e. Affganistan, Syria) yn gweld eu bod yn cael llai o ‘groeso’ yn y DU neu’n teimlo’u bod yn haeddu llai o gymorth na ffoaduriaid o Wcráin, ac mae’r annhegwch hwn hefyd yn cael effaith negyddol ar eu lles meddyliol. Dylid adfer trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bob ffoadur.

## Beyond the Blue Barnardo's Cymru

### Rôl gwasanaethau cymunedol

**19.** Mae gwir angen gwasanaethau yn y gymuned sy'n wahanol i wasanaethau iechyd meddwl mwy traddodiadol y GIG mewn lleoliadau clinigol neu wasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Efallai y byddai'n well gan lawer o blant a phobl ifanc ddefnyddio gwasanaeth cymunedol gan fod llai o stigma ynghlwm wrtho. Gall gwasanaethau o’r fath bontio rhwng gwasanaethau’r GIG a’r gwasanaethau cymdeithasol, a helpu i ddiwallu anghenion y ‘canol coll’ y soniodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd amdano.

### Cynorthwyo’r teulu cyfan

**20.** Mae’n bwysig iawn bod y cymorth a gynigir yn canolbwyntio ar y teulu ehangach, nid dim ond y plentyn dan sylw. Mae'n ymddangos bod plant yn mwynhau ymweld â'r ganolfan a chymryd rhan yn y gweithgareddau yno. Roedd rhieni hefyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth.

### Hygyrchedd

**21.** Roedd y teuluoedd y gwnaethom gyfarfod â nhw wedi teithio i Beyond the Blue ar fws. Os nad oes cysylltiadau trafnidiaeth ar gael, efallai mai’r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf

sy’n cael yr anhawster mwyaf i fanteisio arnynt, ac mae hynny’n dwysáu’r anghydraddoldebau presennol ymhellach.

**22.** Yn hytrach na bod teuluoedd yn teithio i'r ganolfan, efallai y gellid trefnu gwasanaeth 'allgymorth' hy y gwasanaeth yn mynd i gartrefi pobl.

## Y gwasanaethau sydd ar gael

**23.** Nid yw'n ymddangos bod 'map' clir o'r math hwn o wasanaethau ar hyd a lled Cymru. Nid yw'n glir a oes dull strategol o ddatblygu gwasanaethau o'r fath (er enghraifft ar draws neu o fewn byrddau partneriaeth rhanbarthol). Gallai fframwaith NYTH, a ddatblygwyd gan raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc, fod yn ddefnyddiol yn y cyswllt hwn.

Eitem 2.3

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Jenny,

Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig

Fel y byddwch efallai'n cofio, yn ein cyfarfod ar 6 Mehefin, gwnaethom drafod Confensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig (a elwir hefyd yn 'Gonfensiwn Istanbwl'). Yn dilyn y cyfarfod, gwnaethom ysgrifennu at eich Pwyllgor yn sgil eich ymchwiliad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i dynnu eich sylw at y ffaith bod y Confensiwn wedi cael ei gadarnhau.

Gwnaethom ysgrifennu hefyd at Lywodraeth Cymru i ofyn am ei barn am gywirdeb y wybodaeth a geir yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r llywodraethau datganoledig ac i ofyn am wybodaeth am ei chydymffurfedd â'r Confensiwn. Yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf, gwnaethom drafod ymateb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, lle yr amlinellodd bryderon yr oedd hi wedi'u codi gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â materion polisi a chyfansoddiadol. Gwnaethom gytuno, felly, i rannu'r ymateb hwn â'ch Pwyllgor chi ac â Phwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 2.4

Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade and
Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Weinidog,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ein hadroddiad 'Pwysau costau byw.' Rydym eisoes wedi rhannu copi o'r adroddiad â chi, dan embargo – fe'i gosodwyd ar 28 Gorffennaf.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb ffurfiol gennych, 30 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cyhoeddi. Byddaf yn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Pwyllgor o ran eich ymateb, a'r camau nesaf ar gyfer gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn. Gall hyn gynnwys gohebiaeth yn gofyn am eglurhad o'r materion a godwyd yn eich ymateb neu wahoddiad i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i drafod eich ymateb yn fanwl.

Rwyf wedi gofyn am i ddadl ar yr adroddiad hwn gael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn cyn gynted ag y bo modd yn dilyn eich ymateb.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at Weinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ac at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol oherwydd, er bod yr adroddiad hwn yn trafod yr economi'n bennaf, roeddwn yn meddwl efallai y byddai ganddynt ddiddordeb yn yr adran ar gymunedau gwledig a'r adran ar fudd-daliadau Cymreig yn y drefn honno. Rwyf hefyd wedi anfon copi at Jenny Rathbone AS, gan fy mod yn gwybod bod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi bod yn gwneud gwaith yn ymwneud â'r adroddiad hwn.

Cofion cynnes,

Paul Davies

Paul Davies AS



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref LN3452

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru / SeneddEquality@senedd.cymru

18 Awst 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr ar 4 Awst ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar yr argyfwng costau byw. Fel y gwyddoch mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi'r rheini yng Nghymru sydd wedi'u taro waethaf gan yr argyfwng costau byw presennol. Rwy'n croesawu cydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r camau yr ydym wedi eu cymryd ac yr ydym yn parhau i'w cymryd i leddfu'r pwysau a achosir gan yr argyfwng costau byw.

Yn eich llythyr fe wnaethoch ofyn nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, y Cynllun Cymorth Costau Byw a'r Gronfa Cymorth Dewisol - Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a chymorth i aelwydydd oddi ar y grid gyda chostau tanwydd.

Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf

Yn eich llythyr, fe wnaethoch chi ofyn a oeddwn i'n gallu nodi'r gyfradd hawlio ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, gan gynnwys faint o aelwydydd oedd yn gymwys am gymorth, a faint o aelwydydd dderbyniodd gymorth ym mhob awdurdod lleol. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai 350,000 o aelwydydd yn gwneud defnydd o'r Cynllun Taliad Tanwydd y Gaeaf cyntaf yn 21/22. Roedd y nifer hwn yn seiliedig ar nifer y bobl yng Nghymru a oedd yn gymwys i dderbyn budd-dal yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym bellach yn gwybod bod y ffigur hwn wedi'i oramcangyfrif oherwydd anawsterau o ran

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nodi'n gywir yr aelwydydd unigol sy'n agored i dalu am danwydd ymhlith yr holl aelwydydd sy'n cael budd-daliadau yn nata'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bellach mae swyddogion yn amcangyfrif mai 220,000 o aelwydydd oedd yn gymwys i gael cymorth trwy gynllun 21/22. Yn anffodus, gan fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata cenedlaethol nid oes gennym ddata ar nifer yr aelwydydd sy'n gymwys fesul ardal awdurdod lleol.

Fe wnaethoch hefyd ofyn am gyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol o dan y cynllun. Rhoddir yr wybodaeth honno yn Atodiad A isod.

Yn olaf o ran y Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, fe wnaethoch chi ofyn pa ddata yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu casglu ar gymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf, a'r gyfradd hawlio, yn ôl statws economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig. Gallaf gadarnhau na chafodd unrhyw ddata eu casglu gan awdurdodau ar statws economaidd-gymdeithasol nac ar nodweddion gwarchodedig aelwydydd gan nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn berthnasol i weinyddu'r cynllun.

<u>Cynllun Cymorth Costau Byw</u>

Yn eich llythyr fe wnaethoch ofyn faint o aelwydydd o fewn pob awdurdod lleol sy'n gymwys am y Cynllun Cymorth Costau Byw, a faint sydd wedi derbyn taliad drwy'r cynllun hyd yma. Gweler y tablau yn Atodiad B am amcangyfrif o nifer yr eiddo cymwys am y cynllun, a nodwyd gan ddefnyddio'r meini prawf ar sail gwybodaeth am y dreth gyngor ym mis Ionawr 2022. Mae'r amcangyfrif o nifer yr aelwydydd cymwys yn seiliedig ar y sefyllfa pan gyflwynwyd y Cynllun. Mae'r taliadau'n gywir fel ag yr oeddent ddydd Llun 8 Awst. Gallaf gadarnhau yr amcangyfrifwyd bod cyfanswm o 1,013,142 o aelwydydd yn gymwys ar gyfer y Cynllun ac, ar 8 Awst 2022, roedd 982,715 wedi derbyn taliad.

Fe wnaethoch hefyd ofyn a allwn roi diweddariad ar ffigurau terfynol y gyfradd hawlio a chyfanswm gwerth y taliadau i bob awdurdod lleol ar ôl i'r cynllun ddod i ben ar 30 Medi. Gallaf gadarnhau y byddaf yn rhoi diweddariad ym mis Hydref 2022.

O ran eich cais ynghylch pa ddata, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu ar gymhwysedd neu niferoedd sy'n manteisio ar y Cynllun Cymorth Costau Byw yn ôl statws economaidd-gymdeithasol neu nodweddion gwarchodedig, gallaf gadarnhau nad oes data penodol yn cael eu casglu am statws economaidd-gymdeithasol nac am nodweddion gwarchodedig mewn perthynas â'r Cynllun Cymorth Costau Byw. Mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys yn cynnwys byw mewn eiddo o fewn Band A i D y dreth gyngor neu dderbyn cymorth drwy ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (unrhyw fand).

Yn absenoldeb data incwm manwl ar bob aelwyd, dewis eiddo yw'r dangosydd agosaf o gyfoeth cymharol ac amgylchiadau incwm, er ein bod yn cydnabod nad yw'n fesur perffaith. Mae defnyddio eiddo â bandiau is a derbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) fel meini prawf cymhwyso yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei dargedu'n gyffredinol at aelwydydd ar incwm is.

Yn olaf o ran y Cynllun Cymorth Costau Byw, rydych wedi gofyn a fyddaf yn darparu manylion, unwaith y bydd y data ar gael, ynghylch faint o aelwydydd ym mhob awdurdod lleol gafodd gymorth gan elfen ddewisol y Cynllun Cymorth Costau Byw, a chyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol trwy'r elfen hon o'r cynllun. Gallaf gadarnhau y byddaf yn darparu gwybodaeth am hyn ym mis Ebrill 2023 gan y gall y cynllun dewisol redeg hyd at 31 Mawrth 2023.

<u>Y Gronfa Cymorth Dewisol – Taliadau Cymorth mewn Argyfwng</u>

Yn eich llythyr fe wnaethoch ofyn faint o geisiadau, fesul awdurdod lleol, sydd wedi eu gwneud ar gyfer Taliadau Cymorth mewn Argyfwng yn 2020, 2021 a 2022. Fe wnaethoch hefyd ofyn faint o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng sydd wedi'u gwneud trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a hyd yma yn ystod 2022. Rwyf wedi cynnwys yr wybodaeth hon yn Atodiad C. Mae'r tablau hyn hefyd yn cynnwys cyfanswm gwerth y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a 2022. Mae'r data fel ag yr oeddent ar 11 Awst 2022.

Fe wnaethoch chi hefyd ofyn faint o aelwydydd sydd wedi derbyn 2, 3, 4 neu 5 taliad ym mhob blwyddyn. Darperir yr wybodaeth hon yn Atodiad D.


<u>Cronfa Cymorth Dewisol – cefnogaeth i aelwydydd oddi ar y grid gyda chostau tanwydd</u>

Yn eich llythyr fe wnaethoch ofyn faint o geisiadau, fesul awdurdod lleol, gafodd eu gwneud i'r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ar gyfer costau tanwydd oddi ar y grid yn 2020, 2021 a hyd yma yn ystod 2022. Fe wnaethoch hefyd ofyn faint o daliadau sydd wedi'u gwneud i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol i helpu gyda chostau tanwydd oddi ar y grid drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol yn 2020, 2021 a 2022 ac am gyfanswm gwerth y taliadau a wnaed drwy'r Gronfa Cymorth Dewisol am gostau tanwydd oddi ar y grid gan bob awdurdod lleol yn 2020, 2021 a hyd yma yn ystod 2022. Rhoddir yr wybodaeth hon yn y tablau yn Atodiad C hefyd ac mae data 2022 fel ag yr oeddent ar 11 Awst 2022.

Dylid nodi mai yn 2021 y cyflwynwyd cefnogaeth gyda thanwydd oddi ar y grid, felly nid oes gwybodaeth ar gyfer 2020. Yn ogystal â hynny, oherwydd gwerth y swm a ddyfarnwyd, dim ond un cais am gymorth gyda chostau tanwydd oddi ar y grid y flwyddyn y caniateir i ymgeiswyr ei wneud. Felly nid oes data ar gyfer nifer y ceisiadau fesul aelwyd fel y gofynnwyd amdanynt, gan mai un taliad yn unig fydd yr holl ymgeiswyr sydd wedi'u cymeradwyo yn ei gael.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Atodiad A - Taliadau Cynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf a wnaed i aelwydydd, fesul ardal awdurdod lleol**

| **Cyngor** | **Ceisiadau a dalwyd** | **Gwerth** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | 10746 | £2,340,038 |
| Rhondda Cynon Taf | 14716 | £3,093,831 |
| Gwynedd | 5180 | £1,091,895 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4734 | £1,176,690 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 5506 | £1,151,799 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 5422 | £1,137,767 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 8523 | £1,789,920 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 8666 | £1,820,219 |
| Cyngor Caerdydd | 21940 | £4,606,031 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 2879 | £603,897 |
| Cyngor Sir y Fflint | 6680 | £1,400,712 |
| Caerffili | 11211 | £2,375,608 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 8533 | £1,792,919 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 4707 | £991,961 |
| Cyngor Sir Penfro | 4575 | £1,000,184 |
| Abertawe | 13806 | £2,896,340 |
| Cyngor Sir Powys | 3811 | £800,675 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 5806 | £1,337,500 |
| Cyngor Sir Fynwy | 2320 | £501,653 |
| Wrecsam | 7431 | £1,521,225 |
| Bro Morgannwg | 6479 | £1,374,754 |
| Ynys Môn | 3109 | £650,308 |
| | | |
| Cyfanswm | 166780 | £35,455,926 |

**Atodiad B – Y Cynllun Cymorth Costau Byw**

**Amcangyfrif o nifer yr aelwydydd cymwys yn ôl awdurdod lleol a dyraniad cyllid dangosol**

| | **Amcangyfrif o nifer yr aelwydydd cymwys** | **Dyraniad cyllid (£)** |
|---|---:|---:|
| Ynys Môn | 23,714 | 3,557,100 |
| Gwynedd | 39,907 | 5,986,050 |
| Conwy | 38,878 | 5,831,700 |
| Sir Ddinbych | 32,465 | 4,869,750 |
| Sir y Fflint | 46,575 | 6,986,250 |
| Wrecsam | 43,168 | 6,475,200 |
| Powys | 37,461 | 5,619,150 |
| Ceredigion | 19,719 | 2,957,850 |
| Sir Benfro | 37,708 | 5,656,200 |
| Sir Gaerfyrddin | 63,046 | 9,456,900 |
| Abertawe | 81,037 | 12,155,550 |
| Castell-nedd Port Talbot | 56,810 | 8,521,500 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 50,095 | 7,514,250 |
| Bro Morgannwg | 33,428 | 5,014,200 |
| Rhondda Cynon Taf | 92,884 | 13,932,600 |
| Merthyr Tudful | 23,900 | 3,585,000 |
| Caerffili | 67,676 | 10,151,400 |
| Blaenau Gwent | 30,241 | 4,536,150 |
| Torfaen | 34,679 | 5,201,850 |
| Sir Fynwy | 20,204 | 3,030,600 |
| Casnewydd | 50,642 | 7,596,300 |
| Caerdydd | 88,905 | 13,335,750 |
| | | |
| **Cyfanswm Cymru** | **1,013,142** | **151,971,300** |

## Crynodeb o'r Taliadau fesul Awdurdod, ar 7 Awst 2022

| | | Cyfanswm Cronnol | |
|---|---|---|---|
| | | **Dyfarniadau (nifer)** | **Gwerth (£)** |
| Ynys Môn | Bandiau A-I CTRS | 14,676 | 2,201,400 |
| | Bandiau A-D | 7,288 | 1,093,200 |
| | Cyfanswm | **21,964** | **3,294,600** |
| Gwynedd | Bandiau A-I CTRS | 8,652 | 1,297,800 |
| | Bandiau A-D | 30,834 | 4,625,100 |
| | Cyfanswm | **39,486** | **5,922,900** |
| Conwy | Bandiau A-I CTRS | 8,121 | 1,218,150 |
| | Bandiau A-D | 25,634 | 3,845,100 |
| | Cyfanswm | **33,755** | **5,063,250** |
| Sir Ddinbych | Bandiau A-I CTRS | 5,268 | 796,950 |
| | Bandiau A-D | 21,074 | 3,161,100 |
| | Cyfanswm | **26,342** | **3,958,050** |
| Sir y Fflint | Bandiau A-I CTRS | 9,349 | 1,402,350 |
| | Bandiau A-D | 34,534 | 5,180,100 |
| | Cyfanswm | **43,883** | **6,582,450** |
| Wrecsam | Bandiau A-I CTRS | 7,893 | 1,183,950 |
| | Bandiau A-D | 28,076 | 4,211,400 |
| | Cyfanswm | **35,969** | **5,395,350** |
| Powys | Bandiau A-I CTRS | 6,588 | 988,200 |
| | Bandiau A-D | 23,600 | 3,540,000 |
| | Cyfanswm | **30,188** | **4,528,200** |
| Ceredigion | Bandiau A-I CTRS | 5,343 | 801,450 |
| | Bandiau A-D | 13,905 | 2,085,750 |
| | Cyfanswm | **19,248** | **2,887,200** |
| Sir Benfro | Bandiau A-I CTRS | 4,721 | 708,150 |
| | Bandiau A-D | 22,182 | 3,327,300 |
| | Cyfanswm | **26,903** | **4,035,450** |
| Sir Gaerfyrddin | Bandiau A-I CTRS | 12,270 | 1,840,500 |
| | Bandiau A-D | 45,578 | 6,836,700 |
| | Cyfanswm | **57,848** | **8,677,200** |
| Abertawe | Bandiau A-I CTRS | 15,810 | 2,371,500 |
| | Bandiau A-D | 52,912 | 7,936,800 |
| | Cyfanswm | **68,722** | **10,308,300** |
| Castell-nedd Port Talbot | Bandiau A-I CTRS | 15,045 | 2,256,750 |
| | Bandiau A-D | 39,043 | 5,856,450 |
| | Cyfanswm | **54,088** | **8,113,200** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Bandiau A-I CTRS | 10,061 | 1,509,150 |
| | Bandiau A-D | 33,981 | 5,097,150 |
| | Cyfanswm | **44,042** | **6,606,300** |
| Bro Morgannwg | Bandiau A-I CTRS | 1,744 | 261,600 |
| | Bandiau A-D | 28,086 | 4,212,900 |
| | Cyfanswm | **29,830** | **4,474,500** |
| Rhondda Cynon Taf | Bandiau A-I CTRS | 21,890 | 3,283,500 |
| | Bandiau A-D | 66,868 | 10,030,200 |
| | Cyfanswm | **88,758** | **13,313,700** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | Bandiau A-I CTRS | 4,957 | 743,550 |
| | Bandiau A-D | 16,395 | 2,459,250 |
| | Cyfanswm | **21,352** | **3,202,800** |
| Caerffili | Bandiau A-I CTRS | 13,737 | 2,060,550 |
| | Bandiau A-D | 47,532 | 7,129,800 |
| | Cyfanswm | **61,269** | **9,190,350** |
| Blaenau Gwent | Bandiau A-I CTRS | 7,248 | 1,087,200 |
| | Bandiau A-D | 19,388 | 2,908,200 |
| | Cyfanswm | **26,636** | **3,995,400** |
| Torfaen | Bandiau A-I CTRS | 9,081 | 1,362,150 |
| | Bandiau A-D | 23,561 | 3,534,150 |
| | Cyfanswm | **32,642** | **4,896,300** |
| Sir Fynwy | Bandiau A-I CTRS | 4,864 | 729,600 |
| | Bandiau A-D | 13,599 | 2,039,850 |
| | Cyfanswm | **18,463** | **2,769,450** |
| Casnewydd | Bandiau A-I CTRS | 10,012 | 1,501,800 |
| | Bandiau A-D | 34,339 | 5,150,850 |
| | Cyfanswm | **44,351** | **6,652,650** |
| Caerdydd | Bandiau A-I CTRS | 27,111 | 4,066,650 |
| | Bandiau A-D | 53,604 | 8,040,600 |
| | Cyfanswm | **80,715** | **12,107,250** |
| | | | |
| **Cyfanswm Cymru** | **Bandiau A-I CTRS** | **224,441** | **33,672,900** |
| | **Bandiau A-D** | **682,013** | **102,301,950** |
| | **Cyfanswm** | **982,715** | **141,229,130** |

**Atodiad C – y Gronfa Cymorth Dewisol**

**Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a chymorth i aelwydydd oddi ar y grid gyda chostau tanwydd - Ceisiadau, hawliadau a dalwyd a gwerthoedd fesul awdurdod lleol, fesul blwyddyn**

**2020**

| Awdurdod Lleol | Ceisiadau am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng | Talwyd | Gwerth | Ceisiadau tanwydd oddi ar y grid | Tanwydd oddi ar y grid a dalwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 11849 | 6732 | £534,140.00 | | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 14279 | 8302 | £542,944.00 | | | |
| Caerffili | 21063 | 12693 | £929,075.00 | | | |
| Caerdydd | 45752 | 27444 | £1,778,002.10 | | | |
| Sir Gaerfyrddin | 13334 | 7910 | £541,362.97 | 1 | | |
| Ceredigion | 1998 | 1133 | £74,906.80 | | | |
| Conwy | 9052 | 5265 | £436,938.00 | | | |
| Sir Ddinbych | 9882 | 5483 | £381,007.20 | | | |
| Sir y Fflint | 10713 | 6433 | £439,894.81 | | | |
| Gwynedd | 8645 | 5044 | £334,374.11 | | | |
| Ynys Môn | 4622 | 2628 | £172,680.00 | | | |
| Merthyr Tudful | 12017 | 7090 | £600,090.00 | | | |
| Sir Fynwy | 3509 | 2106 | £218,430.00 | | | |
| Castell-nedd Port Talbot | 16237 | 9452 | £658,512.44 | | | |
| Casnewydd | 23970 | 14084 | £911,335.00 | | | |
| Sir Benfro | 6301 | 3559 | £229,670.60 | | | |
| Powys | 3828 | 2188 | £217,730.00 | | | |
| Rhondda Cynon Taf | 29985 | 17276 | £1,115,572.00 | | | |
| Abertawe | 25899 | 15358 | £1,035,172.95 | | | |
| Torfaen | 11197 | 6732 | £452,410.62 | 1 | | |
| Bro Morgannwg | 10970 | 6726 | £445,961.93 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Wrecsam | 15833 | 9422 | £621,318.40 | | | |
| **CYFANSWM** | **310935** | **183060** | **£12,671,528.93** | **2** | **0** | **0** |

**2021**

| Awdurdod Lleol | Ceisiadau am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng | Talwyd | Gwerth | Ceisiadau am danwydd oddi ar y grid | Tanwydd oddi ar y grid a dalwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 14242 | 8145 | £564,446.49 | 17 | 14 | £1,380.00 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 17393 | 10009 | £698,986.12 | 12 | 6 | £610.00 |
| Caerffili | 23332 | 13550 | £959,144.00 | 14 | 2 | £120.00 |
| Caerdydd | 50785 | 29518 | £2,049,850.60 | 158 | 130 | £14,030.00 |
| Sir Gaerfyrddin | 15530 | 9241 | £682,102.42 | 204 | 161 | £35,084.40 |
| Ceredigion | 2622 | 1545 | £115,285.00 | 78 | 63 | £13,280.00 |
| Conwy | 9755 | 5715 | £402,733.50 | 26 | 19 | £3,000.00 |
| Sir Ddinbych | 11041 | 6495 | £458,613.28 | 21 | 15 | £2,250.00 |
| Sir y Fflint | 12455 | 7458 | £533,211.80 | 30 | 14 | £2,140.00 |
| Gwynedd | 10087 | 6042 | £429,858.56 | 60 | 35 | £3,900.00 |
| Ynys Môn | 5075 | 3074 | £216,698.54 | 31 | 20 | £2,820.00 |
| Merthyr Tudful | 13706 | 8005 | £547,068.00 | 3 | 1 | £70.00 |
| Sir Fynwy | 4140 | 2378 | £163,085.00 | 11 | 8 | £1,490.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20122 | 11773 | £821,545.00 | 28 | 8 | £1,240.00 |
| Casnewydd | 26877 | 15494 | £1,067,130.20 | 17 | 4 | £450.00 |
| Sir Benfro | 7802 | 4531 | £328,876.58 | 174 | 127 | £20,600.00 |
| Powys | 4449 | 2579 | £189,925.00 | 86 | 73 | £17,020.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 35030 | 20030 | £1,381,807.03 | 26 | 9 | £1,110.00 |
| Abertawe | 28201 | 16694 | £1,147,201.30 | 37 | 16 | £3,200.00 |
| Torfaen | 12734 | 7585 | £534,429.30 | 27 | 15 | £1,260.00 |
| Bro Morgannwg | 12321 | 7276 | £512,570.00 | 5 | 2 | £200.00 |
| Wrecsam | 18760 | 11041 | £794,928.62 | 19 | 8 | £680.00 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **356459** | **208178** | **£14,599,496.34** | **1084** | **750** | **£125,934.40** |

**2022** – hyd at 11 Awst 2022

| Awdurdod Lleol | Ceisiadau am Daliadau Cymorth Brys | Talwyd | Gwerth | Ceisiadau am danwydd oddi ar y grid | Tanwydd oddi ar y grid a dalwyd | Gwerth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 12469 | 7937 | £551,130.00 | 1 | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13841 | 9083 | £635,999.10 | 15 | 15 | £1,620.00 |
| Caerffili | 19426 | 12743 | £900,740.00 | | | |
| Caerdydd | 38729 | 25149 | £1,746,524.00 | 77 | 63 | £5,560.00 |
| Sir Gaerfyrddin | 12042 | 8169 | £608,203.21 | 160 | 141 | £33,160.00 |
| Ceredigion | 2199 | 1452 | £112,721.40 | 78 | 70 | £16,310.00 |
| Conwy | 7849 | 5184 | £360,388.70 | 11 | 11 | £2,390.00 |
| Sir Ddinbych | 8925 | 5930 | £422,887.61 | 11 | 11 | £1,310.00 |
| Sir y Fflint | 10513 | 7177 | £518,180.00 | 21 | 19 | £3,310.00 |
| Gwynedd | 8050 | 5208 | £370,635.18 | 46 | 45 | £6,280.00 |
| Ynys Môn | 3875 | 2633 | £189,970.00 | 18 | 17 | £2,810.00 |
| Merthyr Tudful | 11495 | 7365 | £506,580.00 | 6 | 4 | £280.00 |
| Sir Fynwy | 3393 | 2227 | £154,512.30 | 6 | 6 | £960.00 |
| Castell-nedd Port Talbot | 15945 | 10654 | £742,550.00 | 32 | 30 | £2,820.00 |
| Casnewydd | 23654 | 15336 | £1,072,694.17 | 1 | | |
| Sir Benfro | 6492 | 4299 | £316,299.00 | 80 | 72 | £13,680.00 |
| Powys | 4009 | 2669 | £199,912.00 | 106 | 97 | £21,730.00 |
| Rhondda Cynon Taf | 30127 | 19316 | £1,340,117.88 | 1 | 1 | £250.00 |
| Abertawe | 23559 | 15788 | £1,079,169.10 | 6 | 5 | £890.00 |
| Torfaen | 10152 | 7045 | £500,500.00 | 66 | 59 | £4,850.00 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 10353 | 7033 | £500,040.00 | 3 | 3 | £570.00 |
| Wrecsam | 15845 | 10528 | £767,525.00 | 9 | 8 | £920.00 |
| **CYFANSWM** | **292942** | **192925** | **£13,597,278.65** | **754** | **677** | **£119,700.00** |

**Atodiad D** – y **Gronfa Cymorth Dewisol - Taliadau Cymorth mewn Argyfwng**

Nifer yr aelwydydd sydd wedi derbyn 2, 3, 4 neu 5 Taliad Cymorth mewn Argyfwng yn 2020, 2021 a hyd yma yn 2022.

| Blwyddyn | Dau Daliad | Tri Thaliad | Pedwar Taliad | Pum Taliad |
|---|---|---|---|---|
| **2020** | 13732 | 10462 | 7657 | 12534 |
| **2021** | 20572 | 18577 | 8491 | 7919 |
| **2022** | 26451 | 17786 | 6750 | 3535 |

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

4 Awst 2022

Annwyl Jane,

**Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr argyfwng costau byw**

Mae'r cynnydd a welir mewn costau byw yn debygol o ddominyddu trafodaethau cyhoeddus yn yr hydref, wrth inni agosáu at aeaf anodd iawn. Er ein bod yn cydnabod y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i geisio lleddfu'r pwysau hyn, mae'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i'r cyhoedd mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y cymorth hwn yn gyfyngedig. Er mwyn i ni allu deall graddfa ac effeithiolrwydd y cymorth hwn yn well, a monitro'r sefyllfa wrth symud ymlaen, byddem yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn.

Y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf

- A fyddai modd i chi nodi'r gyfradd hawlio ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, gan gynnwys faint o aelwydydd oedd yn gymwys i gael cymorth, a faint o aelwydydd a gafodd gymorth ym mhob awdurdod lleol?
- A fyddai modd i chi hefyd nodi cyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol o dan y cynllun?
- Pa ddata y mae Llywodraeth Cymru wedi'u casglu ar gymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf, a'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ôl eu statws economaidd-gymdeithasol neu eu nodweddion gwarchodedig? A fyddai modd i chi rannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor?

Y Cynllun Cymorth Costau Byw

- A fyddai modd i chi nodi faint o aelwydydd o fewn pob awdurdod lleol sy'n gymwys ar gyfer y Cynllun Cymorth Costau Byw, a faint o aelwydydd sydd wedi cael taliad drwy'r cynllun hyd yma?
- A fyddai modd i chi ddarparu'r ffigurau terfynol i'r Pwyllgor ynghylch y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun, a chyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol, pan fydd data terfynol ar gyfer y Cynllun ar gael wedi iddo gau ar 30 Medi?
- Pa ddata, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu ynghylch cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Cymorth Costau Byw, neu'r niferoedd sy'n manteisio arno, yn ôl eu statws

economaidd-gymdeithasol neu eu nodweddion gwarchodedig?  A fyddai modd i chi ddarparu i’r Pwyllgor unrhyw wybodaeth sydd ar gael unwaith y daw'r cynllun i ben?
- Unwaith y bydd y data ar gael, a fyddai modd i chi ddarparu manylion ynghylch faint o aelwydydd ym mhob awdurdod lleol a gafodd gymorth drwy elfen ddewisol y Cynllun Cymorth Costau Byw, a chyfanswm gwerth y taliadau a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol drwy’r elfen hon o’r cynllun?

Y Gronfa Cymorth Dewisol – Taliadau Cymorth mewn Argyfwng

- Yn ôl awdurdod lleol, faint o geisiadau a wnaed am Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ystod 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?
- A fyddai modd i chi nodi faint o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed drwy’r Gronfa Cymorth Dewisol i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)? A fyddai modd i chi nodi nifer y cartrefi sydd wedi cael 2, 3, 4 neu 5 o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng ym mhob blwyddyn?
- A fyddai modd i chi ddarparu cyfanswm gwerth y Taliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed i aelwydydd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?

Y Gronfa Cymorth Dewisol – cymorth i aelwydydd oddi ar y grid ar gyfer costau tanwydd

- Fesul awdurdod lleol, faint o geisiadau a wnaed i’r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ar gyfer costau tanwydd oddi ar y grid yn 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?
- Yn ystod 2020, 2021 a 2022, faint o daliadau a wnaed i aelwydydd drwy’r Gronfa Cymorth Dewisol ym mhob awdurdod lleol i’w helpu gyda chostau tanwydd oddi ar y grid? A fyddai modd i chi nodi nifer yr aelwydydd sydd wedi cael 2, 3, 4 neu 5 taliad yn gysylltiedig â thanwydd oddi ar y grid ym mhob blwyddyn?
- A fyddai modd i chi nodi cyfanswm gwerth y taliadau a wnaed drwy’r Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer costau tanwydd oddi ar y grid gan bob awdurdod lleol yn 2020, 2021 a 2022 (hyd yn hyn)?

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Byddwn yn ddiolchgar pe gallwn gael ymateb gennych o fewn yr amserlen arferol.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Julie Morgan AS/MS
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
0300 200 6565

15 Awst 2022

Annwyl Jenny Rathbone AS

Diolch i chi am eich llythyr, dyddiedig 22 Gorffennaf 2022.

Roeddwn yn falch o'r cyfle i roi tystiolaeth i gefnogi Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ar 27 Mehefin 2022. Er bod y maes hwn yn perthyn i bortffolio fy nghyd-weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, mae cysylltiadau amlwg â darparu gwasanaethau cymdeithasol, sy'n perthyn i'm portffolio i. Felly, rwy'n falch o allu darparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwaith parhaus y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi'r garfan hon o bobl.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sefydlu dull gweithredu cyson o ran atal a diogelwch ar gyfer pobl sy'n profi camdriniaeth neu'n wynebu risg o gamdriniaeth, gan gynnwys pan fo trais neu niwed yn broblem. Cafodd y Ddeddf ei chynllunio i raddau helaeth i alluogi gwasanaethau i weithio mewn ffordd gydgysylltiedig i sicrhau diogelwch pawb, ble bynnag y maent yng Nghymru.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru yn eiddo i'r Byrddau Diogelu; fe'u cyhoeddwyd yn 2019, ac maent yn hygyrch i bawb drwy ap a gwefan. Maent yn hyrwyddo arferion diogelu cyson sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth ar draws asiantaethau ac ar draws Cymru ac yn dangos ymhellach ddyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Darparwyd hyfforddiant ar y Gweithdrefnau a'r Canllawiau, wedi'i hwyluso gan chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau 'Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches' https://llyw.cymru/iechyd-llesiant-ffoaduriaid-cheiswyr-lloches-canllawiau-ar-gyfer-byrddau-iechyd

Mae'r canllawiau hyn yn nodi bod diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed ac yn nodi diben ac ymrwymiad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Maent hefyd yn amlinellu rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru.

Rwy'n cyfarfod â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ddwywaith y flwyddyn ac mae hwn yn gyfle gwerthfawr i gael trafodaeth ar y cyd i sicrhau bod unrhyw faterion diogelu yng Nghymru yn cael eu codi. Mae fy swyddogion hefyd yn cyfarfod â Chadeiryddion a Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn rheolaidd ac mae hyn hefyd yn gyfle i godi a thrafod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymrwymiadau diogelu. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw faterion wedi'u codi drwy'r Bwrdd Cenedlaethol na'r Byrddau Rhanbarthol o ran unrhyw bryderon gan fenywod mudol am ryngweithio â gwasanaethau cymdeithasol neu gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol a phryderon bod risg i'w plant gael eu cymryd oddi wrthynt; fodd bynnag, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion godi hyn gyda'r Byrddau i holi a oes unrhyw brofiadau neu heriau wedi'u nodi ac, os oes, i fynd i'r afael â'r rhain mor gyflym ag y bo modd. Yn yr un modd, pe bai'r Pwyllgor neu bartneriaid yn dod i wybod am unrhyw enghreifftiau penodol o achosion o'r fath, byddwn yn ddiolchgar pe bai modd rhannu'r rhain er mwyn i'm swyddogion allu gwneud ymholiadau priodol a chymryd camau pellach, os oes angen, i gynnig mwy o eglurder i ddileu'r risg bod pryderon o'r fath yn codi.

Mae Deddf 2014, o ran ei natur, yn darparu mesurau atal a diogelu ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin ac felly byddem yn dymuno sicrhau bod pobl yng Nghymru yn cael eu cefnogi i droi'n hyderus a dibryder at y gwasanaethau a gynlluniwyd i'w cefnogi.

Yn 2020, er mwyn sicrhau bod ymrwymiadau a bwriadau'r Ddeddf o ran y rhai sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn dryloyw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a gyd-gynhyrchwyd gyda Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru ynglŷn â mynediad at wasanaethau cymdeithasol a gofal a chymorth arall i geiswyr lloches diymgeledd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt. Mae'r Nodyn Cyngor hwnnw'n tynnu sylw at rai materion cyffredin o ran cymhwysedd ar gyfer cymorth awdurdodau lleol yng Nghymru i unigolion sy'n geiswyr lloches diymgeledd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/mynediad-at-wasanaethau-cymdeithasol-a-gofal-a-chymorth-arall-i-geiswyr-lloches-diymgeledd-nad-oes-cronfeydd-cyhoeddus-ar-gael-iddynt.pdf

Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn esbonio'r sefyllfa gyfreithiol bresennol o ran ambell gamargraff gyffredin yn y maes cymhleth hwn, gan adeiladu ar gyngor cysylltiedig mewn rhannau eraill o'r DU. Y bwriad yw cefnogi gweithwyr cymdeithasol ac eraill ledled Cymru yn eu gwaith drwy roi cyngor ffeithiol clir ynghylch yr hyn y gellir ei wneud o dan Ddeddf 2014 i gefnogi ceiswyr lloches diymgeledd, ac ynghylch dyletswyddau a phwerau awdurdodau lleol perthnasol.

Er i'r canllawiau hyn gael eu llunio gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r camargraffiadau a nodir uchod, bu'r ddogfen hefyd yn gyfle pellach i amlinellu crynodeb o adrannau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r codau ymarfer a'r canllawiau statudol perthnasol.

Mae fy swyddogion yn cynnull ac yn cadeirio'r cyfarfod Trawsadrannol ar Ddiogelu, VAWDASV a Phrofiadau Niweidiol mewn Plentyndod, sy'n dod ag arweinwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru ynghyd i drafod ymrwymiadau trawsbynciol, rhannu datblygiadau a sicrhau ffordd gydgysylltiedig o ddatblygu a gweithredu ein polisïau. Mae'r Grŵp hwn yn

rhoi cyfle pellach i archwilio'r materion a godwyd yn eich llythyr a bydd hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf i'w gynnal.  Bydd fy swyddogion yn rhoi gwybod imi os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r trafodaethau hyn.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i rymuso a gwella hawliau, fel y dangoswyd yn Neddf 2014, drwy sicrhau llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

Yn Ionawr 2021 cyhoeddwyd ein Papur Gwyn "Ailgydbwyso Gofal a Chymorth" https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgynghori_0.pdf a oedd yn amlinellu cynigion trawsnewidiol ac uchelgeisiol er mwyn i ofal cymdeithasol ddatblygu'r weledigaeth hon.

Ym mis Tachwedd 2021, nododd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ein hymrwymiadau, gan gynnwys yr uchelgais i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sydd ar gael yn rhad ac am ddim pan fo'i angen, gan barhau fel gwasanaeth cyhoeddus.

Yn nhymor y Senedd hon, rydym yn ymgymryd â llawer iawn o waith i wella ein cefnogaeth a'n dyletswyddau ymhellach mewn perthynas â phlant ac i gynnig rhagor o gymorth i'r gweithlu gofal cymdeithasol wrth iddynt ddarparu eu gwasanaethau i blant ac oedolion:

- Mae ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys y ffocws ar ddileu elw o ofalu am blant sy'n derbyn gofal a chryfhau cyfrifoldebau rhianta. Dros gyfnod yr haf, byddwn yn cynnal Uwchgynhadledd i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am y materion sydd bwysicaf iddynt. Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi adborth gwerthfawr inni y byddwn yn gweithredu arno wrth ddatblygu a chyflawni ein Hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu.

- Bydd yr ymrwymiadau hyn yn cael eu hystyried yn agos gan y Bwrdd Goruchwylio, a gadeirir yn annibynnol gan Anthony Douglas. Drwy gyfrwng y Bwrdd hwn rydym yn cyflwyno gweledigaeth ac uchelgais newydd ar gyfer gwasanaethau plant, yn seiliedig ar arferion cyson, gwell cefnogaeth i deuluoedd a mabwysiadu dulliau adferol cenedlaethol o ran gofal.  Bydd hyn yn cynnwys ymyriadau ataliol i deuluoedd sydd â phlant ar gyrion gofal gan gynnwys gwasanaethau eirioli i rieni, cynadleddau grŵp teuluol, diwygio cyfiawnder teuluol a fframwaith ymarfer cenedlaethol.

- Mae'r trefniadau cyllido i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eirioli i rieni ym mhob un o'r saith rhanbarth yng Nghymru wedi'u cytuno o fis Ebrill 2022 ymlaen. Bydd y gwasanaethau hyn yn cefnogi rhieni y mae eu plant ar gyrion gofal, gan helpu i osgoi'r angen i'r gwasanaethau cymdeithasol statudol gamu i mewn, osgoi dwysáu anghenion, a lleihau'r risg y bydd plant yn dod i mewn i'r system ofal.

- Mae sefydlu Fframwaith Gofal Cenedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Swyddfa Genedlaethol yn darparu cyfrwng ar gyfer trawsnewid, gan gomisiynu gwasanaethau yn genedlaethol.

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn datblygu Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Diogelu yng Nghymru a Fframwaith i gefnogi hyfforddiant sy'n berthnasol i rôl pob ymarferydd. Mae hyn yn ychwanegol at y rhaglen hyfforddi a ddarperir gan Fyrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru. Mae disgwyl i'r broses ymgynghori ar gyfer y Fframwaith ddechrau fis nesaf.

- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei Gynllun ar gyfer y Gweithlu Gwaith Cymdeithasol yn fuan.  Bydd hyn yn rhoi'r ffocws i wella ymhellach a chefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol ledled Cymru.

- Sicrhawyd cyllid trwy'r Gronfa Diwygio Gofal Cymdeithasol i archwilio diwygio radical ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Dyma rai o’r meysydd y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar eu cyfer:

  o Maethu Cymru – cysoni ffioedd a lwfansau awdurdodau lleol ar gyfer gofalwyr maeth a lefelu’r sefyllfa ar gyfer ofalwyr sy'n berthnasau (i asio gyda gwaith Eliminate).
  o Bwrw ymlaen â diwygio Cyfiawnder Teuluol – gan gynnwys dirymu gorchmynion gofal Lleoli gyda Rhieni a hyrwyddo gorchmynion goruchwylio.
  o Datblygu a chyflwyno'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

Yn ogystal, mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a byddant yn ystyried ei argymhellion mewn perthynas â’r ddyletswydd orfodol i hysbysu am bryderon diogelu pan fydd y rhain yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

Gobeithio y byddwch chi a’r Pwyllgor yn gweld yr wybodaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Jane a Julie,

Ymchwiliad i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol – menywod mudol

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'n hymchwiliad.

Yn ystod ein sesiwn trafodwyd pryderon a godwyd gan y rhai y mae trais wedi effeithio arnynt, y gallai eu plant, wrth ryngweithio â'r gwasanaethau cymdeithasol, fod mewn perygl o gael eu cymryd oddi arnynt. Roeddem yn croesawu eich diddordeb yn y pwynt penodol hwn a byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth yn hyn o beth, yn enwedig eich barn am arfer ar lawr gwlad mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o waith cymdeithasol ynghylch dyletswyddau mewn perthynas â phlant.

Nodwyd eich pryderon am faterion yn ymwneud â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn fwy cyffredinol a byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am sut rydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Awst 2022

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr ar 22 Gorffennaf lle gwnaethoch ofyn am ragor o wybodaeth am fonitro data mewn perthynas â darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer menywod mudol. Rwy'n croesawu'r cyfle i roi rhagor o wybodaeth i gefnogi eich ymchwiliad i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol sy'n effeithio ar fenywod mudol.

Ym mis Ionawr 2022, sefydlodd Llywodraeth Cymru dair Uned Dystiolaeth, pob un gyda'i rhaglen dystiolaeth a'i harweinydd ei hun:

- Yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Bydd yr Unedau yn gweithio gyda'i gilydd fel yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd gyda Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb gyffredinol er mwyn sicrhau synergedd, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chydlyniant. Bydd yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb yn gweithio gyda chydweithwyr sy'n gyfrifol am bolisi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn ogystal â dadansoddwyr eraill Llywodraeth Cymru sydd â rôl yn y maes hwn.

Nod yr unedau yw gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig er mwyn inni allu deall y lefel a'r mathau o anghydraddoldeb ledled Cymru yn llawn. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddatblygu polisïau wedi eu llywio'n well ac i asesu a mesur eu heffaith. Bydd hyn yn ein gyrru tuag at ganlyniadau gwell i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a chysylltiedig ac yn cyfrannu at ein nod o 'Gymru fwy cyfartal' fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r unedau wedi datblygu Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb sy'n disgrifio'r cwmpas, y cylch gwaith a'r cynlluniau ac maent yn anelu at gyhoeddi hyn ym mis Medi 2022. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer pob uned yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymrwymiadau sydd eisoes wedi'u gwneud a gofynion sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi ochr yn ochr â'r strategaeth.

Un o dasgau cychwynnol yr unedau yw cynnal archwiliad tystiolaeth fydd yn rhoi dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael a'r bylchau a'r anghysondebau sydd angen sylw. Bydd yr archwiliad yn cynnwys ffynonellau data presennol sy'n llywio polisi VAWDASV. Unwaith y bydd y bylchau wedi'u nodi bydd y rhain yn cael eu blaenoriaethu gyda rhanddeiliaid er mwyn eu datrys.


Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys pennod ar 'Troseddu a Chyfiawnder, gan gynnwys Troseddau Casineb' sy'n cynnwys Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Un o’r camau gweithredu yn y cynllun yn y bennod hon yw codi ymwybyddiaeth o Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil Llywodraeth Cymru ymhlith partneriaid ym maes cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a nodi'r ffordd orau o helpu pob partner i wella'r dystiolaeth sydd ar gael ar wahaniaethau ar sail hil yn y system gyfiawnder yng Nghymru, a defnyddio hyn i gefnogi gwaith monitro a phenderfyniadau polisi gwell.

Mae nodi'r bylchau mewn tystiolaeth sy'n ymwneud ag ethnigrwydd a hil, gan gynnwys data cyfiawnder troseddol, yn un o flaenoriaethau cyntaf yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy archwiliad o gasgliadau data a ddelir ac allbynnau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn ehangach. Gan adeiladu ar yr asesiad cychwynnol hwn, bydd yr uned yn mynd ar drywydd rhaglen waith i wella'r sylfaen dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu'n barhaus â phobl ethnig leiafrifol i wella eu gwybodaeth a’u hymddiriedaeth o ran y ffordd y caiff eu data eu defnyddio, er mwyn ennyn eu hyder i rannu data.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi data ar gam-drin domestig yma: Nifer yr achosion o gam-drin domestig a nodweddion dioddefwyr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk). Cyhoeddwyd y fersiwn ddiweddaraf o'r data ym mis Tachwedd 2021 ac nid yw'n cynnwys dadansoddiad ar sail ethnigrwydd oherwydd effaith COVID. Mae dadansoddiadau ar sail ethnigrwydd i ddioddefwyr ar gyfer set ddata 2020 yn yr un ddolen.

Dim ond megis dechrau mae’r gwaith o archwilio ansawdd y data a gesglir yn rheolaidd ac felly nid yw'n bosibl ateb eich holl gwestiynau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, y nod yw casglu a mireinio'r data hyn er mwyn gallu ateb y mathau hyn o gwestiynau yn y dyfodol er mwyn cefnogi datblygiad strategol gwasanaethau ac i ddylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Eluned,

**Ymchwiliad i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol – menywod mudol**

Diolch am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'n hymchwiliad.

Yn ystod ein sesiwn cafwyd trafodaeth fer ar y gwaith o fonitro mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl i fenywod mudol, a nodwyd sylwadau gan Dr Payne fod coladu a monitro data yn waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am ba waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, yn enwedig pe gallech ymhelaethu ar yr hyn sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd ac i ba raddau y caiff ei ddadansoddi, a pha waith pellach y gallech fod yn ei wneud mewn perthynas â'r data hwn.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Gwent Police Headquarters
Llantarnam Park Way
Llantarnam
CWMBRÂN
Torfaen
NP44 3FW

**VIA EMAIL**

**24th August 2022**

Dear Jenny Rathbone MS

**RE: Letter to DCC Amanda Blakeman: ESJ Committee inquiry into violence against women, domestic abuse, and sexual violence**

It was a pleasure to give evidence to the Committee on the 27th of June as part of your inquiry.

Please see below responses in relation to the questions raised in your letter dated 20th July 2022.

***We would like to know who receives this training and when they receive it, for example whether it is delivered as part of initial training or on a rolling basis?***

Officers receive training as part of their initial training before they are sent out on the front line. Further training is included on training days as part of a rolling programme especially when new information/legislation is received.

Forces are also undertaking the Live Fear Free training on Domestic Violence.

Officers who wish to specialise in CID (Criminal Investigation Department) will have additional training on all aspects of vulnerability on their training course.

SOLO (Sexual Offence Liaison Officers) also receives additional training to enable them to engage with victims of sexual offences and retrieve that initial forensic and first account evidence.

All four forces in Wales are part Operation Soteria - Operation Soteria was launched as a response to the government End-to-End Rape Review, and the Home Office pledge to increase the number of rape cases making it to court. The Operation Soteria Team will review working practices in forces and then provide recommendations for improvement.

***We would specifically like information on the training that frontline officers receive around:***

***language, particularly in relation to how police source interpretation for victims where English is not their first language***

All officers will receive training on the use of Language Line (which is the Telephone Interpreter Service) to assist in any language difficulties. With the rollout of mobile technology this can be done both at the location of the victim/offender and within the custody environment.

Forces will also utilise the services of BAWSO to facilitate communication if required.

***data, and data sharing, including how this is communicated to migrant victims of violence, domestic abuse, and sexual violence***

For those victims subject to Domestic Abuse/Sexual Violence and/or Modern-Day Slavery Offences a MARAC (Multi agency Risk Assessment Conference) will take place where information will be shared with partners to mitigate risk and put the relevant support mechanisms in place. At initial attendance a risk assessment is completed for domestic related incidents/offences, consent to share their information is obtained from the victim and this will be discussed at the time. For victims who are subject to Modern Day Slavery offences they will enter the National Referral Mechanism and again this will explain along with what information will be shared. If there are language barriers either Language Line or BAWSO are utilised to assist communication.

Officers receive training on all these aspects as detailed above at various points in their service

***cultural issues, such as forced marriage, and so-called honour-based violence***

Again, this is covered in officer's training throughout their service and further bespoke training by Karma Nirvana has been given to specialist officers to understand cultural issues and Honour based violence offences.

***referral, i.e., knowing when, how and where to refer once a case has been identified***

As above. In cases of Domestic Abuse and Domestic Sexual Violence the risk assessment will identify when, how, and where to refer. In cases of Modern-Day Slavery, officers receive bespoke training as detailed above on the National Referral Mechanism and Support services such as BAWSO.




During an engagement session we held in Swansea, we heard positive examples of how referrals to specialist services had worked. How are such examples of best practice shared to ensure a consistent approach across Wales?

For Modern Day Slavery Offences – Within the ROCU (Regional Organised Crime Unit) there is a co-ordinator. There are also several meetings chaired by either Police, CPS or Welsh Government to share learning.

There is a plethora of other forums where best practice can be shared inclusive of Safeguarding Boards, RASSO (Rape and Serious Sexual Offences) boards, formalised meeting with the Crown Prosecution Service regarding Domestic Abuse and Sexual Offences, VAWDASV Boards and also more locally in Police Forces Learning the Lessons Meetings.

Lastly, in relation to Organised Immigration Crime and repeat offenders trafficking migrant women, we do not currently have any cases in Wales and have not had any reported to the police over the last 12 months.

Kind Regards

**DCC Amanda Blakeman**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Y Dirprwy Brif Gwnstabl Amanda Blakeman

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Ddirprwy Brif Gwnstabl

Ymchwiliad i Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol – menywod mudol

Diolch am roi tystiolaeth i’r Pwyllgor ar 27 Mehefin fel rhan o'n hymchwiliad. Roeddem yn ddiolchgar am eich amser a'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych cyn y sesiwn.

Wrth i ni nesáu at gam adrodd ein hymchwiliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi manylion ychwanegol i ni am yr hyfforddiant y mae staff yn ei gael ar gefnogi menywod mudol sy'n dioddef trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd. Hoffem wybod pwy sy'n cael yr hyfforddiant hwn a phryd y maent yn ei gael, er enghraifft a yw'n cael ei ddarparu fel rhan o hyfforddiant cychwynnol neu ar sail dreigl. Hoffem gael gwybodaeth benodol am yr hyfforddiant y mae swyddogion rheng flaen yn ei gael ynghylch:

- iaith, yn enwedig mewn perthynas â sut mae'r heddlu'n dod o hyd i wasanaeth dehongli ar gyfer dioddefwyr pan nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf;
- data, a rhannu data, gan gynnwys sut y caiff hyn ei gyfleu i bobl fudol sy’n dioddef trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- materion diwylliannol, megis priodas dan orfod, a thrais ar sail anrhydedd fel y'i gelwir; ac
- atgyfeirio, h.y. gwybod pryd, sut a ble i gyfeirio unwaith y bydd achos wedi'i ganfod.

Yn ystod sesiwn ymgysylltu a gynhaliwyd gennym yn Abertawe, clywsom enghreifftiau cadarnhaol o sut roedd atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol wedi gweithio. Sut mae enghreifftiau o arfer gorau o'r fath yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru?

Fel y nodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, mae rhannu data wedi bod yn elfen gyson o'n hymchwiliad ac, yn benodol, pryderon ynghylch a fyddai statws mewnfudo dioddefwr yn cael ei rannu

ag asiantaethau eraill. Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu eich barn ar oblygiadau unrhyw gynigion ar gyfer llenni tân o ran data i heddluoedd Cymru.

Roeddem hefyd yn croesawu eich ymrwymiad yn ystod y sesiwn dystiolaeth i ddarparu rhagor o wybodaeth am y gyfradd gollfarnu ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau mynych, ac edrychwn ymlaen at dderbyn y wybodaeth hon maes o law.

Ers i ni gwrdd, cyhoeddwyd yr ymateb, ar 30 Mehefin, i'r uwch-gŵyn gan y Ganolfan Cyfiawnder Menywod. Pa berthnasedd, os o gwbl, sydd gan yr adroddiad hwn i’r ffordd y mae heddluoedd Cymru yn ymdrin â chwynion yn erbyn swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu ac yn enwedig unrhyw gwynion lle mae menywod mudol yn achwynwyr?

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

17 Awst 2022

Anwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf.

Yn gyntaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei ymdrechion parhaus yng nghyswllt y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ('y Cynllun'), a rhoi sicrwydd ichi fod Llywodraeth Cymru yn sefyll gyda'r Pwyllgor wrth eirioli dros ddinasyddion yr UE / yr AEE a'r Swistir. Mae pedwerydd adroddiad y Pwyllgor ar y Cynllun yng Nghymru, ar ôl blwyddyn o waith monitro, i'w groesawu ac yn galonogol, a hynny gan fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ymdrin mewn rhyw fodd â llawer o'r materion a grybwyllir yn yr adroddiad, os nad y cyfan ohonynt.

Nodaf y pryderon a fynegwyd gennych yn eich gohebiaeth, ac rwy'n ymateb i bob pwynt isod:

**Dinasyddion cyn-sefydlog**

Mae disgwyl i ddatganiad ystadegol chwarterol nesaf y Cynllun gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn, a bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ffigurau sydd wedi'u diweddaru fel y mae wedi'i wneud yn achos datganiadau ystadegol blaenorol. Byddwch yn gwybod bod y datganiadau ystadegol chwarterol yn rhoi data i lywodraethau datganoledig am nifer y dinasyddion sydd wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog ac y bydd angen iddynt felly wneud cais am statws preswylydd sefydlog yn y dyfodol. Fodd bynnag, ar sail y data hynny, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu nodi *pryd* y bydd angen gwneud ail geisiadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers i’r Cynllun gael ei lansio, mae Llywodraeth Cymru wedi galw sawl gwaith ar Lywodraeth y DU i ddarparu data mwy gronynnog, ar lefel ddatganoledig, fel y gall Llywodraeth Cymru gynllunio’r cymorth gorau ar gyfer y dyfodol. Yn anffodus, mae swyddogion ystadegol yn Llywodraeth y DU yn parhau i gynghori nad yw o fewn eu cylch gwaith presennol i gyhoeddi data datganoledig ynghylch statws cyn-sefydlog yn dod i ben. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod y Swyddfa Gartref yn bwriadu atgoffa deiliaid unigol statws preswylydd cyn-sefydlog yn amserol i wneud cais am statws preswylydd sefydlog cyn i’w statws cyn-sefydlog ddod i ben. Mae’r Swyddfa Gartref wedi dweud na fydd statws preswylydd cyn-sefydlog y rhai cyntaf a’i cafodd o dan y Cynllun yn dod i ben tan ganol 2023. Bydd dinasyddion yr UE, ac aelodau o’u teulu, y rhoddwyd statws preswylydd cyn-sefydlog iddynt yn cael eu hatgoffa bod angen gwneud cais am statws preswylydd sefydlog cyn i’w statws cyn-sefydlog ddod i ben, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Cyn belled â bod cais am statws preswylydd sefydlog yn cael ei wneud cyn i’r statws cyn-sefydlog ddod i ben, bydd caniatâd presennol y person yn parhau nes y penderfynir ar ei gais, a thrwy gydol unrhyw apêl yn erbyn gwrthod cais.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac aelodau o Grŵp Cydgysylltu y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i gydlynu gwasanaethau a pharatoi holl ddinasyddion yr UE / yr AEE a’r Swistir yng Nghymru y gall fod angen iddynt wneud ail gais o dan y Cynllun. Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ddigidol ar gyfer y Cynllun, gan dargedu’n benodol yr unigolion hynny y gall fod angen iddynt uwchraddio eu statws cyn-sefydlog. Rydym hefyd wedi bod yn tynnu sylw at gymorth pan fo angen; rydym wedi cyhoeddi negeseuon wedi’u targedu, a hynny tua blwyddyn ers y dyddiad cau; rydym wedi cynhyrchu cardiau atgoffa ynghylch statws cyn-sefydlog yn dod i ben, i randdeiliaid eu dosbarthu; ac, yn fwy diweddar, rydym wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol fel y gall Cyngor ar Bopeth Cymru, Settled, a Newfields Law barhau i ddarparu gwasanaethau cymorth tan fis Mawrth 2023.

Fel y soniwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae’n adolygu’r gwaith ymchwil a’r papurau academaidd diweddaraf, fel yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Arsyllfa Ymfudo, i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau ar gymorth a roddir yn y dyfodol wedi’u seilio ar dystiolaeth gadarn. Ar hyn o bryd, mae swyddogion polisi yn defnyddio cyhoeddiad yr Arsyllfa Ymfudo i gyfrannu at adolygiad o wasanaethau cynghori yng nghyswllt y Cynllun yng Nghymru. Mae’r adolygiad hwn ar waith ar hyn o bryd.

**Ceisiadau hwyr a dim ceisiadau**

Fel y rhagwelwyd, cynyddodd nifer y ceisiadau o dan y Cynllun yn ddramatig yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ac yn syth ar ei ôl. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau hwyr sy’n dal i gael eu cyflwyno yn gostwng bob mis, ac erbyn hyn maent yn cyfateb i tua 0.5% ar gyfartaledd o’r holl geisiadau a wnaed hyd yma. O ystyried nifer y consesiynau a ganiatawyd gan Lywodraeth y DU er mwyn darparu ar gyfer ceisiadau hwyr, mae Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd nifer fach iawn o geisiadau hwyr yn dal i gael eu cyflwyno am nifer o fisoedd. Oherwydd hynny, rydym wedi penderfynu parhau i ariannu gwasanaethau cynghori yng nghyswllt y Cynllun yng Nghymru tan fis Mawrth 2023, fel y nodir uchod.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw faterion sy’n ymwneud â cheisiadau hwyr ac mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad oes yr un dinesydd o’r UE yng Nghymru wedi bod yn destun diddymu hawliau oherwydd peidio â gwneud cais i’r Cynllun hyd yma. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro’r sefyllfa hon ac i annog dinasyddion yr UE / yr AEE neu’r Swistir sy’n dal yn gymwys i wneud cais i’r Cynllun ac sydd â rheswm dros wneud cais hwyr i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

**Cyngor a chymorth am ddim**


Fel y soniwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n ddiweddar i barhau i ariannu Cyngor ar Bopeth Cymru, Settled, a Newfields Law tan fis Mawrth 2023. Yn anffodus, nid ydym wedi cael gwybodaeth am fwriadau Llywodraeth y DU o ran parhau i ariannu partneriaid, ond rydym yn gwahodd Llywodraeth y DU i Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun ac mae'r sefydliadau y mae'n eu hariannu yng Nghymru (Mind Casnewydd a TGP Cymru) yn aelodau allweddol o'r grŵp hwnnw. Un o brif amcanion Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun yw hwyluso trafodaeth am adnoddau ac am gyllid yn y dyfodol. Rwy'n atodi cofnodion o gyfarfodydd diweddar Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun, a byddaf yn sicrhau eich bod yn awr yn cael y cofnodion hynny'n rheolaidd yn dilyn pob cyfarfod. Mae disgwyl i'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal ddiwedd mis Medi.

**Wcráin a thrwyddedau teuluoedd o dan y Cynllun**

Roeddwn yn siomedig iawn fod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio ag ymestyn llwybr *Surinder Singh* ar gyfer y Cynllun, a hynny er gwaethaf galwadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn sgil y sefyllfa yn Wcráin. Yn anffodus, nid oes data ar lefel ddatganoledig i ddangos faint o ddinasyddion Wcráin sydd wedi cyflwyno cais i'r Cynllun. Nid yw'r ystadegau sydd ar gael ond yn dangos cyfanswm y ceisiadau a wnaed o Gymru nad ydynt yn rhai'r AEE, sef cyfanswm o 3,270 hyd yma, ac mae hyn yn cwmpasu **pob** cais rhyngwladol.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn rhoi manylder ac eglurder ynglŷn â'r pwyntiau a godwyd gennych, a'i fod yn rhoi sicrwydd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i wireddu ei haddewid i ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir ac i'w cynorthwyo i breswylio'n sefydlog yma yng Nghymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

26 Gorffennaf 2022

Annwyl Jane

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Yn ein cyfarfod ar 11 Gorffennaf trafodwyd yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar geisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion y DU gan ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru, a chyhoeddwyd ein hadroddiad monitro wedi hynny.

Mae'r adroddiad yn nodi ein blwyddyn gyntaf o fonitro'r Cynllun ac mae'n tynnu sylw at nifer o faterion allweddol yr ydym wedi'u canfod yn ystod y gwaith hwn. Nodir y rhain isod a byddem yn ddiolchgar am eich ymateb i bob un:

## Dinasyddion cyn-sefydlog

Mae ein hadroddiad yn nodi bod nifer y rhai sy'n gwneud cais i drosi eu statws o statws cyn-sefydlog i statws sefydlog yn cael eu cofnodi mewn ystadegau ar geisiadau mynych, er nad yw'r wybodaeth yn cael ei darparu fesul gwlad y DU. A fyddech cystal â nodi:

- a yw Llywodraeth Cymru wedi cael ystadegau gan Lywodraeth y DU lle mae bylchau ystadegol yn bodoli, yn enwedig o ran nifer y dinasyddion yng Nghymru sy'n ceisio trosi eu statws o statws cyn-sefydlog i sefydlog; ac
- a yw'r data gan Lywodraeth Cymru i allu adnabod dinasyddion sydd â statws cyn-sefydlog, gan gynnwys at ddibenion darparu cymorth a nodiadau atgoffa ar gyfer ail geisiadau.

Yn eich llythyr ar 13 Ebrill 2022, nodwyd gennych y byddai swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn adolygu cyhoeddiad yr Arsyllfa Ymfudo cyn bo hir 'How Secure is Pre-Settled Status for EU Citizens After Brexit?' A fyddech cystal â nodi canfyddiadau a chanlyniadau allweddol yr adolygiad hwnnw.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Ceisiadau hwyr a dim ceisiadau

Nodwn fod nifer y ceisiadau hwyr o Gymru wedi cynyddu i 6,180 ar 31 Mawrth o 4,240 ar 31 Rhagfyr 2021, and wedi cynyddu o fis i fis yn ystod y cyfnod hwn. A allech chi nodi:

- eich barn am y cynnydd yn nifer y ceisiadau hwyr o Gymru;
- eich barn am sut mae Llywodraeth y DU yn ymdrin â cheisiadau hwyr o Gymru; ac
- a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw broblemau'n ymwneud â cheisiadau hwyr.

Gwyddom os nad yw unigolyn wedi gwneud cais i'r Cynllun ac yn dod i sylw awdurdodau'r DU, y bydd yn cael 28 diwrnod o rybudd i wneud cais. Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac ni fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth. A allwch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw broblemau'n ymwneud â dinasyddion nad ydynt wedi gwneud cais?

## Cyngor a chymorth am ddim

Ymhellach i'ch cyhoeddiad cynharach ar ymestyn y dyddiad cau ar gyfer ariannu gwasanaethau cyngor a chymorth am ddim i ddinasyddion Ewropeaidd sy'n gwneud cais i'r Cynllun tan o leiaf ddiwedd mis Medi 2022, a wnewch chi egluro:

- a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu ehangu'r cymorth y tu hwnt i fis Medi 2022;
- rhan Llywodraeth Cymru ym mhenderfyniad Llywodraeth y DU i roi arian ychwanegol i gyrff sy'n gweithredu drwy'r DU gyfan, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill, gan gynnwys a yw'r cyrff sy'n cael yr arian hwn yn bartneriaid allweddol i Lywodraeth Cymru; a
- sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydgysylltu'r modd y dyrennir cyllid i gynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais i'r Cynllun.

Yn eich llythyr ar 22 Chwefror 2022, gwnaethoch ymrwymiad i rannu cofnodion Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun cyhyd ag y mae'r grŵp yn parhau i gwrdd. Hyd yma rydym wedi derbyn cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2022. A allwch chi gadarnhau a oes unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u cynnal ac os felly, a fyddech cystal â darparu'r cofnodion fel y cytunwyd yn flaenorol.

## Wcráin a thrwyddedau teuluoedd o dan y Cynllun

Mae ein hadroddiad yn nodi nad oedd Llywodraeth y DU wedi caniatáu ymestyn dyddiad cau'r cynllun trwyddedau teuluoedd, sef 29 Mawrth, ac mae'r llwybr hwn bellach ar gau i aelodau o deuluoedd cymwys o Wcráain oni bai eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ceisiadau hwyr. Mae'r Pwyllgor yn rhannu siom Llywodraeth Cymru na chafodd y dyddiad cau ei ymestyn.

Dengys yr ystadegau diweddaraf bod 13,030 o Wcreiniaid ledled y DU wedi gwneud cais i'r Cynllun hyd at 31 Mawrth. Nid yw gwybodaeth ar gael ar gyfer gwahanol wledydd y DU.  A fyddech cystal â chadarnhau:

- a oes gan Lywodraeth Cymru’r ffigurau ar gyfer nifer y ceisiadau a gafwyd gan Wcreiniaid a gyrhaeddodd Cymru a wnaeth gais i'r Cynllun; ac
- a oes trafodaethau pellach wedi cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Edrychwn ymlaen at gael ymateb.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Archwilio Cymru
Audit Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dr Andrew Goodall
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

**Cyfeirnod:** AC/326/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 1 Medi 2022

Annwyl Andrew

## Archwilio'r broses o bennu amcanion llesiant

Fel y gwyddoch, mae fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol imi archwilio cyrff cyhoeddus, gan gynnwys, Gweinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru). Yn benodol, mae'n rhaid imi asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a) wrth bennu amcanion llesiant, a b) wrth gymryd camau i'w cyflawni, yn unol â'r Ddeddf. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu ceisio 'sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.[1] I wneud hynny, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'pum ffordd o weithio'.[2]

Rwyf bellach wedi gorffen fy archwiliad o'r graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant. Dyma'r archwiliad cyntaf o'i fath a gynhaliwyd yn y cyfnod adrodd hwn, sy'n cwmpasu 2020–2025. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant yn rhan o Raglen Lywodraethu'r chweched Senedd, ynghyd â datganiad llesiant ar wahân ym mis Mehefin 2021. Mae hyn yn adlewyrchu'r gofyniad i bennu a chyhoeddi'r amcanion o

[1] Adran 5 (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[2] Diben Cyffredin: Rhannu Dyfodol Canllawiau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

fewn chwe mis ar ôl etholiad. Dechreuodd fy archwilwyr y gwaith hwn yn ddiweddarach y flwyddyn honno.

Nid yw'n ofynnol imi adrodd ar ddiwedd archwiliadau unigol, ond mae'n ofynnol imi adrodd ar ganlyniadau fy archwiliadau cyn diwedd y cyfnod adrodd (Mai 2025). Mae hyn yn golygu y bydd canfyddiadau'r archwiliad hwn yn rhan o sylfaen dystiolaeth yr adroddiad y mae'n ofynnol imi ei osod gerbron y Senedd. Fodd bynnag, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig cyfleu canlyniadau pob archwiliad er mwyn cynorthwyo atebolrwydd a chefnogi dysg a gwelliant, a hynny mewn modd amserol. Gobeithiaf hefyd fod adrodd yn cynorthwyo tryloywder ac yn helpu cyrff cyhoeddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd. Felly, mae'r llythyr a'r atodiad hwn yn nodi fy nghanfyddiadau, fy nghasgliadau a fy argymhellion o'r archwiliad hwn.

Wrth asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, mae angen imi ystyried sut y maent wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio. Er bod allbynnau a chanlyniadau da yn hunanamlwg o bwys, mae'r Ddeddf yn rhoi amlygrwydd i'r ffordd y mae cyrff yn ymgymryd â'u gwaith - 'sut', yn hytrach na 'beth'. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd) a minnau wedi parhau i bwysleisio bod hyn yn bwysig; nid er biwrocratiaeth ond er mwyn sicrhau gwell canlyniadau, yn ogystal â darparu manteision amlwg megis cryfhau ymddiriedaeth a chysylltiadau drwy gydweithrediad ac ymglymiad. Felly, wrth gynnal fy archwiliadau, rwyf yn chwilio am gyrff cyhoeddus i 'ddangos eu gwaith'. Mae hyn yn golygu, wrth archwilio'r broses o bennu amcanion llesiant, fy mod yn disgwyl i gyrff cyhoeddus allu disgrifio a darparu tystiolaeth o sut y maent wedi mynd ati i bennu eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n ystyried y pum ffordd o weithio. Er enghraifft, pwy sydd wedi bod yn rhan o'r broses honno, pryd a sut, yn ogystal â'r wybodaeth y maent wedi ei defnyddio a sut mae wedi siapio'r broses o ddethol amcanion llesiant.

Yn ddelfrydol, dylai cyrff cyhoeddus bennu amcanion llesiant sydd wrth wraidd y sefydliad. Nid yw'n ofyniad, ond rwyf yn glir mai eu lleoli yn eu trefniadau cynllunio corfforaethol yw'r arfer gorau. Yn wir, mae'n ddigon posibl y byddai pennu amcanion llesiant sydd y tu allan i'r fframwaith corfforaethol yn cyfyngu ar eu heffaith a'u cyrhaeddiad ac y byddai'n ychwanegu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a chymhlethdod. Bydd pob corff yn dylunio ac yn dilyn proses sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau eu hunain, y bydd ein harchwiliadau'n ceisio eu deall fel y gallwn asesu i ba raddau y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei chymhwyso.

Cadarnhaol felly yw gweld bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei hamcanion llesiant wrth wraidd y rhaglen lywodraethu. Rwyf yn cydnabod, i Lywodraeth Cymru, fod realiti pennu amcanion llesiant, yn y modd y rhagwelwyd gan y Ddeddf ac yn fuan ar ôl etholiad, yn heriol. Mae'n rhaid iddi lunio rhaglen lywodraethu sy'n adlewyrchu'r gorchymyn gwleidyddol, yn ogystal â sicrhau ei bod yn cymhwyso'r egwyddor

datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant. Nid yw ymrwymiadau maniffesto yn dileu nac yn disodli'r ddyletswydd statudol hon. Mae dod â'r elfennau hyn at ei gilydd yn cyflwyno rhai heriau ymarferol a chysyniadol ac nid oes dim un ateb cywir i sut y dylid ei gwneud. Rwyf yn deall bod hwn yn faes lle mae Llywodraeth Cymru yn debygol o barhau i fireinio ei dull gweithredu dros amser.

O ganlyniad i hynny, mae'r archwiliad wedi codi rhai materion diddorol ac wedi amlygu rhai safbwyntiau gwahanol ar draws ein priod sefydliadau. Fodd bynnag, ar ôl gorffen fy archwiliad, fy marn i yw, er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei phrosesau a'i harferion ehangach, nid yw wedi darparu tystiolaeth ategol glir i ddangos sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant. O ganlyniad i hynny, nid yw gwneud asesiad cyffredinol o'r graddau y digwyddodd hynny yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymarferol bosibl.

Mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithredu i geisio ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y modd y mae'n gwneud busnes yn gyffredinol. Yn dilyn ein hadroddiad ar gyfer 2019, rydym wedi derbyn tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r trefniadau hyn er nad ydym wedi adolygu eu heffeithiolrwydd yn rhan o'r archwiliad hwn. Fodd bynnag, gallwn weld parhad o waith i ddatblygu capasiti a chryfhau arbenigedd yn y gwasanaeth sifil ac i wella prosesau allweddol, fel y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn pennu ei chyllideb ac yn monitro'r hyn a gyflawnir. Bydd y Comisiynydd yn archwilio'r dulliau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith yn ei hadolygiad ei hun o dan adran 20 o'r Ddeddf. Mae'r gwaith hwnnw wedi dechrau ers tro ac mae'n cyd-fynd â'r ymrwymiad i gydgysylltu, rydym wedi bod yn trafod gwybodaeth berthnasol o'n gwaith archwilio â swyddfa'r Comisiynydd. Mae gan aelod o staff Archwilio Cymru swyddogaeth arsyllydd ar y grŵp llywio sy'n cefnogi'r adolygiad.

Prif bwyslais yr archwiliad hwn yw pennu'r amcanion llesiant. Ymddengys fod amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu ysbryd y Ddeddf mewn sawl ffordd. Maent yn drawsbynciol eu natur, mae cysylltiadau clir â'r nodau llesiant ac mae'r tueddiadau tymor byr a hirdymor yn weladwy yn yr amcanion. Fodd bynnag, fel y disgrifir uchod, fy nghyfrifoldeb i yw asesu 'sut' ac nid 'beth', sy'n golygu bod tystiolaeth ar y ffordd y pennwyd yr amcanion hynny yn ganolog. Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth ynglŷn â hyn, sy'n ei gwneud yn anodd asesu sut y cymhwyswyd y ffyrdd o weithio a phenderfynu i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y nodir yn y Ddeddf ac a ddisgrifir mewn canllawiau ategol.

Yn achos Llywodraeth Cymru, mae ansawdd a gwelededd y broses yn bwysig fel modd o arfer ei swyddogaeth arweiniol. Mae'r Comisiynydd a minnau wedi siarad am bwysigrwydd y swyddogaeth arweiniol honno wrth weithredu'r Ddeddf. Gan mai

Llywodraeth Cymru yw awdur y ddeddfwriaeth, mae'n bwysig ei bod yn esiampl ragorol dros y newid y mae'n dymuno ei weld yn y sector cyhoeddus ehangach. Am y rhesymau hyn, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn egluro ac yn cyfleu'r hyn y mae wedi ei wneud yn glir yn ogystal â chymhwyso'r Ddeddf yn dda.

Er bod y dyletswyddau'n cyflwyno rhai heriau penodol i lywodraeth genedlaethol, mae'n debyg nad yw Llywodraeth Cymru'n unigryw. Efallai y bydd cyrff cyhoeddus eraill yn dewis pennu amcanion llesiant newydd yn y cyfnod adrodd hwn, neu y bydd angen gwneud hynny arnynt – bydd llawer o gynghorau yn ystyried pennu amcanion newydd yn dilyn eu hetholiadau eu hunain. O ystyried hyn, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n anfon neges glir am bwysigrwydd pennu amcanion llesiant mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion ac uchelgeisiau'r ddeddfwriaeth yn llawn.

Rydym wedi cael deialog barhaus gyda swyddogion ynglŷn â sut y dylid dehongli a chymhwyso'r rhan hon o'r ddeddfwriaeth. Er bod fy nghasgliadau yn aros yr un fath, rydym wedi gallu darparu eglurhad pellach ac rwyf yn gobeithio ein bod wedi dod i sefyllfa o gyd-ddealltwriaeth. Rydym wedi bod yn dryloyw wrth rannu ein fframwaith archwilio ac mewn ysbryd dysgu fel y disgwyliwn gan eraill, byddwn yn parhau i ofyn am sylwadau, gan ei ddatblygu a'i fireinio yn ystod y cyfnod adrodd.

Yn olaf, byddwch yn nodi fy mod wedi gwneud argymhellion sydd wedi eu cynllunio i helpu Llywodraeth Cymru y tro nesaf, pan fydd yn pennu amcanion llesiant. Er fy mod yn gwerthfawrogi efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn gallu ymrwymo i fanylion ei hymateb yn awr, byddwn yn croesawu cadarnhad ar yr adeg hon ynghylch a yw'r argymhellion yn cael eu derbyn.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

copi i

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS – Prif Weinidog Cymru

Sophie Howe – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Mark Isherwood AS – Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Jenny Rathbone AS - Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

# Atodiad: Archwilio'r broses o bennu amcanion llesiant

## Sut y gwnaethom gynnal yr archwiliad

**Yr hyn a adolygwyd gennym a pham**

1 O dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ym mhob corff perthnasol o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod adrodd o bum mlynedd. Y cyfnod adrodd presennol yw mis Mai 2020 i fis Mai 2025.

2 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae wedi canolbwyntio ar y gwaith o bennu amcanion llesiant a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru (Llywodraeth Cymru).[3]

3 Yn 2020, bu'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â chyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ar sut y dylid cyflawni'r archwiliadau sydd yn yr ail gyfnod adrodd. Mae'r rhaglen archwiliadau a gynhelir gennym yn awr yn adlewyrchu ein dull diwygiedig.

4 Cynlluniwyd yr archwiliad i:

- roi sicrwydd ynghylch y graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

[3] Yn rhan o raglen waith ehangach yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn gwneud gwaith ychwanegol i gyflawni'r ddyletswydd drwy asesu'r camau a gymerwyd i gyflawni amcanion llesiant.

**Ymagwedd a dulliau archwilio**

5 Canolbwyntiodd ein harchwiliad ar y cwestiwn canlynol:

> 'I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant'.

6 Gwnaethom gymhwyso fframwaith archwilio a lywiwyd gan:

- y Ddeddf a chanllawiau statudol.
- cyngor a chanllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (y Comisiynydd).
- ein fframwaith archwilio presennol, a ddatblygwyd ac a ddefnyddiwyd yn y cyfnod adrodd cyntaf, a lywiwyd trwy waith helaeth i ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- nodweddion pennu amcanion effeithiol sy'n ymddangos yn ein gwaith ehangach.

7 Gwnaethom ddechrau ar ein prif waith maes ym mis Rhagfyr 2021, a gorffen ym mis Chwefror 2022. Gwnaethom adolygu dogfennau, gan gynnwys cyflwyniad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, a chynnal cyfweliadau â swyddogion. Nodir ein canfyddiadau lefel uchel a'n hargymhellion isod, ynghyd â rhywfaint o fanylion ychwanegol am gwmpas ein harchwiliad.

## Canfyddiadau

**Ar y cyfan, rydym wedi dod i'r casgliad, er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei phrosesau a'i harferion ehangach, nad yw wedi darparu tystiolaeth ategol glir i ddangos sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant. O ganlyniad i hynny, ni fu'n ymarferol bosibl gwneud asesiad cyffredinol o'r graddau y digwyddodd hynny yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru**

Nodir ein canfyddiadau manylach isod.

**Mae'r amcanion llesiant yn adlewyrchu ystyriaethau tymor byr a hirdymor perthnasol ac mae cysylltiadau clir â'r nodau llesiant, ond nid yw'n glir sut yn union y mae gwybodaeth berthnasol wedi llywio ei dewis na sut yr oedd amrywiaeth lawn y boblogaeth yn rhan o'r broses**

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano:

- Dealltwriaeth gytbwys a chywir o gynnydd o'i gymharu â'r amcanion llesiant blaenorol a adroddwyd yn glir ac a ddefnyddir i helpu i bennu amcanion llesiant newydd.
- Dealltwriaeth drylwyr o'r anghenion, yr heriau a'r cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol sy'n llywio'r broses o ddewis amcanion llesiant newydd.
- Cyfraniad ystyrlon gan y bobl gywir, sy'n llywio'r broses o ddewis amcanion llesiant newydd.
- Amcanion llesiant sydd wedi eu cynllunio i sicrhau manteision tymor hwy, ochr yn ochr â diwallu anghenion tymor byr. Mae hyn yn cynnwys cael eu pennu dros amserlen briodol.
- Amcanion llesiant sydd wedi eu cynllunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol (gan gynnwys sut y maent yn ymwneud â'i gilydd, amcanion cyrff cyhoeddus eraill a'r nodau).

8 Pennodd Llywodraeth Cymru ei hamcanion llesiant ym mis Mehefin 2021, gan fodloni'r gofyniad i'w cyhoeddi o fewn chwe mis i etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021. Cyhoeddwyd yr amcanion llesiant yn Natganiad Llesiant Llywodraeth Cymru ac fe'u cynhwyswyd yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026, sydd yn ôl disgrifiad Llywodraeth Cymru'n yn 'eu rhoi wrth wraidd y llywodraeth'. Mae ymgorffori'r amcanion yn y ddogfen strategol allweddol a'r broses gynllunio yn adlewyrchu canllawiau statudol ac arferion da ar draws cyrff cyhoeddus. Nododd Llywodraeth Cymru fod angen 'cyflymder' wrth ddatblygu'r amcanion er mwyn galluogi mwy o amser ar gyfer y broses gyflawni ac i roi 'amlygrwydd' i'r amcanion, ac fe'i hysgogwyd gan hynny i wneud y newidiadau hyn.

9 Roedd 12 amcan llesiant yn y datganiad llesiant blaenorol ac mae wedi lleihau'r nifer i 10 erbyn hyn, ond mae dilyniant amlwg yn ei phwyslais. Mae'r amcanion newydd yn adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol ac maent yn drawsbynciol eu natur. Mae cysylltiadau amlwg rhwng yr amcanion llesiant a'r nodau llesiant.

10 Mae tueddiadau tymor byr a hirdymor yn weladwy yn y casgliad terfynol o amcanion llesiant. Fodd bynnag, maent yn ddyheadol eu natur ar y cyfan, er enghraifft: ‘Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a’n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt’. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhwydd mesur y cynnydd dros amserlen benodol a gwerthuso’r llwyddiant wrth ei bodloni (gweler hefyd **paragraff 21**).

11 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio adroddiadau blynyddol sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a gweithgarwch y gorffennol. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod Gweinidogion wedi ystyried sut y maent wedi cyflawni o gymharu â’u hamcanion llesiant blaenorol wrth bennu eu hamcanion llesiant newydd, gan gyfeirio at eu hadroddiadau blynyddol (gweler hefyd **paragraff 22**). Gwnaethon nhw ddweud wrthym hefyd eu bod yn ystyried bygythiadau cyfredol ac yn y dyfodol, gan ddefnyddio adroddiadau blynyddol Llesiant Cymru ac adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol.

12 Fodd bynnag, nid yw’n glir o’r dystiolaeth a ddarparwyd sut mae gwybodaeth am gyflawniadau a thueddiadau’r gorffennol wedi llywio dewisiadau ar amcanion llesiant. Nid ydym wedi cael manylion am sut na phryd y digwyddodd hyn, sut mae’r wybodaeth wedi helpu Gweinidogion i gydbwyso ystyriaethau tymor byr a hirdymor ac wedi dylanwadu ar y dewis o amcanion llesiant newydd. Mae’r adroddiadau blynyddol eu hunain yn cyfeirio at y broses o adolygu a chadw’r amcanion llesiant, ond nid ydynt yn ei disgrifio mewn unrhyw fanylder. Wrth gynnal archwiliadau, rydym yn gofyn i gyrff cyhoeddus ‘ddangos eu gwaith i ni’. Mae hyn yn rhan hanfodol o’n gallu i asesu ffyrdd o weithio ac i ddod i gasgliad ynghylch i ba raddau y mae corff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

13 Er mwyn deall, ac i sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen cyfredol a’r angen yn y dyfodol, mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant. Mae’n rhaid iddi sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth. Nid yw’r dystiolaeth a gawsom yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cynnwys pobl fel y disgrifir gan y Ddeddf a’i chanllawiau ei hun, nac mewn ffordd sy’n adlewyrchu disgwyliadau’r Comisiynydd. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys pobl yn uniongyrchol wrth bennu ei hamcanion llesiant newydd, nac wedi disgrifio sut y mae wedi manteisio ar amrywiaeth o ddeallusrwydd ymglymiad presennol, ond dywedwyd wrthym fod ‘Gweinidogion Cymru’n fodlon mai canlyniad proses ddemocrataidd a oedd yn cynnwys amrywiaeth enfawr o leisiau o bob cwr o Gymru yw’r amcanion llesiant’.

14 Rydym yn gwerthfawrogi y gallai Gweinidogion Cymru ddymuno adlewyrchu ymrwymiadau maniffesto eu pleidiau yn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ac y byddant yn dymuno defnyddio sgyrsiau y maent wedi eu cael â phobl ledled Cymru yn ystod yr etholiad yn rhan o hyn. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld tystiolaeth o ran pa wybodaeth a ystyriwyd a sut y mae wedi llywio'r broses o bennu amcanion llesiant. Mae hyn yn codi rhai cwestiynau pwysig, fel:

- **Sut mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei bod wedi cynnwys amrywiaeth y boblogaeth?** I wneud hyn yn effeithiol, mae angen ystyried yn ymwybodol ac yn systematig pwy ddylai fod yn rhan o'r broses a sut i'w cynnwys. Mae'n rhaid i hyn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.
- **Sut mae canlyniadau'r broses o gynnwys pobl wedi llywio datblygiad yr amcanion llesiant?** Nid yw'n glir sut mae canlyniadau trafodaethau â'r cyhoedd wedi llywio'r broses o bennu amcanion llesiant.
- **Sut mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y disgwyliadau sy'n gysylltiedig â chynnwys pobl (yn hytrach nag ymgysylltu/ymgynghori â nhw) ac arferion da?** Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi cyngor ar sut i gyflawni'r broses o gynnwys pobl i safon uchel. Mae'n cynnwys elfennau a ddisgrifir uchod, fel yr angen i wneud yn siŵr bod y bobl gywir yn cymryd rhan a mynd ati yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae'n rhoi sylw hefyd i bwysigrwydd roi adborth i bobl i roi gwybod iddynt sut mae eu safbwyntiau wedi eu hystyried. Gellid cyflawni hyn drwy nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chasglu drwy gynnwys pobl, a disgrifio sut y defnyddiwyd yr wybodaeth honno yn y datganiad llesiant.

15 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys pobl ar draws ystod o'i swyddogaethau a'i gweithgareddau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Yn ôl datganiad llesiant Llywodraeth Cymru, mae dadansoddiad o'r ymatebion i'w hymgynghoriad 'Cymru Ein Dyfodol' wedi helpu i lywio'r amcanion llesiant, ond nid yw'r datganiad yn egluro'r broses hon. Mae'n ymddangos yn debygol i ni y bydd ffynonellau eraill o wybodaeth berthnasol. Mae cyfleoedd i Lywodraeth Cymru ystyried a, phan fo hynny'n briodol, disgrifio sut mae'r wybodaeth ehangach hon yn llywio'r broses o bennu amcanion llesiant.

16 Nid yw'n glir ychwaith a oedd cyrff eraill yn rhan o broses pennu amcanion llesiant Llywodraeth Cymru na sut yr oeddent yn rhan o'r broses, nac a oedd eu hamcanion llesiant eu hunain wedi eu hystyried. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dweud, o ystyried dilyniant wrth lywodraethu, y byddai llawer o sefydliadau wedi ymgysylltu â Gweinidogion yn y tymor blaenorol. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn tystiolaeth yn ystod yr archwiliad hwn o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr effaith ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Nid ymddengys fod y trefniadau hyn yn ddigon cadarn, ac mae'n codi'r

cwestiwn o sut mae gweision sifil yn cefnogi Gweinidogion newydd i ystyried yr wybodaeth hon, yn enwedig os bu newid ym mhlaid y llywodraeth.

**Mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu â'r bwriad o sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcanion yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ond nid yw wedi nodi'n glir sut y bydd yn gweithio gydag eraill ac mae cyfleoedd i gryfhau ei threfniadau monitro**

Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano:

- Ystyriaeth briodol ynghylch sut y bydd adnoddau ar gyfer yr amcanion llesiant dros y tymor byr, canolig a hir.
- Trefniadau priodol i weithio gydag eraill, gan gynnwys cynllunio i gynnwys y cyhoedd yn y broses gynllunio a chyflawni gyfredol a/ neu sicrhau bod trefniadau partneriaeth a chydweithredu priodol ar waith.
- Trefniadau monitro ac adolygu priodol fel bod modd asesu'r cynnydd dros y tymor byr, canolig a hwy. Dylai'r trefniadau hyn fod yn dryloyw ac wedi eu cyfleu'n glir i randdeiliaid mewnol ac allanol.
- Dealltwriaeth o ba mor dda yr aeth Llywodraeth Cymru i'r afael â'r broses o bennu'r amcanion llesiant blaenorol a thystiolaeth ei bod wedi cymhwyso'r ddysg honno i wella ei modd o bennu ei hamcanion llesiant diweddaraf.

17 Mae'r datganiad llesiant yn nodi pwysigrwydd cynnwys pobl ac yn cydnabod yr angen i gydweithredu wrth gyflawni'r amcanion llesiant. O ystyried bod rhywfaint o ddilyniant mewn amcanion, rhesymol yw tybio y bydd trefniadau cyflawni presennol yn parhau i fod ar waith, ond nid oes manylion am hyn yn y datganiad llesiant.

18 Ar ôl i'r amcanion llesiant gael eu pennu, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi ystyried sut y gellid cysoni'r gyllideb er mwyn eu cyflawni. Mae'n bwysig bod yr amcanion yn sbarduno'r broses o bennu cyllidebau, ond mae cyfleoedd hefyd i sicrhau bod risgiau i gyflawni a'r adnoddau sydd ar gael yn cael eu hystyried wrth bennu'r amcanion hynny. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried eu bod yn fwy hirdymor eu natur. Nid yw'r datganiad llesiant yn cynnwys gwybodaeth am ddarparu adnoddau ar gyfer yr amcanion.

19 Roedd y swyddogion y buom yn siarad â nhw yn cydnabod y swyddogaeth ganolog y gall y broses o bennu cyllideb ei chwarae wrth sicrhau y gall

Llywodraeth Cymru gyflawni manteision ataliol a hirdymor. Mae'r Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi nifer o gamau ar gyfer datblygu trefniadau cynllunio ariannol, gan gynnwys:

- ymwreiddio'r Ddeddf mewn penderfyniadau cyllideb;
- cynllunio ariannol mwy hirdymor – gan gynnwys cyfeirio at ddefnyddio ffynonellau fel Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a dulliau gweithredu fel modelu senarios;
- agenda atal – canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau er mwyn cefnogi newid mewn gweithgareddau ataliol;
- ymateb i newid hinsawdd a bioamrywiaeth;
- tryloywder data cyllidebol.

20 Mae swyddogion yn ystyried sut y gallant ymestyn eu gorwelion cynllunio ariannol. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru barhau i ddatblygu gwaith modelu a chynllunio senarios er mwyn llywio penderfyniadau cyllidebol ac eraill.

21 Ar y cyfan, nid yw'r amcanion llesiant yn hawdd eu mesur. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad oedd yr amcanion llesiant blaenorol yn 'SMART' ac mae wedi eu nodi fel maes y mae angen ei wella, mewn ymateb i sylwadau gan y Comisiynydd yn rhannol. Fodd bynnag, byddai angen rhagor o waith i wneud yr amcanion yn SMART ac i alluogi proses adrodd sy'n gliriach.[4]

22 Gellir cryfhau'r adroddiadau blynyddol hefyd er mwyn cynorthwyo'r broses gynllunio a chefnogi atebolrwydd. Maent yn disgrifio cyflawniadau, sydd wedi eu grwpio fesul thema drawsbynciol, ac mae'r atodiad ategol yn nodi'r cynnydd o'i gymharu ag ymrwymiadau y rhaglen lywodraethu. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwerthuso'r cynnydd cyffredinol o'i gymharu â phob amcan llesiant gan nodi pa gamau ychwanegol neu wahanol y gellid eu cymryd i'w cyflawni nhw.

23 Ar adeg cynnal ein gwaith maes, roedd trefniadau llywodraethu ac adrodd yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys ymestyn y system 'Offeryn Adrodd am

[4] Ceir sawl fersiwn o'r acronym 'SMART' yn y Saesneg. Rydym ni'n ei ddefnyddio i gyfeirio at 'Specific, Measurable, Achievable, Realistic and Time-bound' (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amser-gyfyngedig).

Wybodaeth Busnes' i fonitro cyflawniadau ar draws Llywodraeth Cymru gyfan. Er bod datblygiad ehangach a chyflwyniad system Offeryn Adrodd am Wybodaeth Busnes yn gadarnhaol, mae'n bwysig bod gan sefydliadau system sy'n eu galluogi i gael darlun corfforaethol o'r hyn a gyflawnir.

24 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau â'i hymdrechion i ddatblygu gwybodaeth ar draws y gwasanaeth sifil drwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Mae'n ceisio cryfhau arbenigedd polisi drwy ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y Fframwaith Polisi Galluogrwydd. Rydym hefyd yn ymwybodol mai bwriad ailstrwythuro mewnol diweddar Llywodraeth Cymru yw rhoi mwy o amlygrwydd i rai themâu trawsbynciol allweddol a chefnogi cyflawniadau o'u cymharu yn gyffredinol â'r amcanion llesiant.

25 Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos dilyniant o waith i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhrosesau ac arferion Llywodraeth Cymru, a nodwyd yn ein hadroddiad archwilio ar gyfer 2019. Nid ydym wedi adolygu'r trefniadau hyn yn fanwl yn rhan o'r archwiliad hwn.

26 Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd yn cynnal adolygiad drwy archwilio'r dulliau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i gyflawni'r Ddeddf. Felly, bydd hi'n ystyried y rhain a threfniadau cysylltiedig eraill yn fanylach yn rhan o'r gwaith hwn.

27 Disgrifiodd Llywodraeth Cymru rai myfyrdodau cychwynnol o ran sut y pennodd ei hamcanion llesiant. Nid yw wedi ystyried y gwelliannau y gallai eu gwneud yn llawn eto, ond mae'n disgwyl nodi dysg ychwanegol y gellir ei chymhwyso yn y dyfodol.

## Argymhellion

**Wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru:**

**Argymhelliad 1**: Ystyried y gwahanol ffyrdd y gall gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol ei phroses o bennu amcanion llesiant newydd. Dylai hyn gynnwys cynnal a/neu gasglu ynghyd ganlyniadau'r broses o gynnwys pobl, fel y disgrifir yn y Ddeddf a chanllawiau ategol.

**Argymhelliad 2**: Cyfleu'n glir sut y mae wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant, a sut y mae wedi gwneud hyn yn ei chyswllt unigryw. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft:

- Sut mae wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth i helpu i gydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor ac i wneud dewisiadau ynghylch dewis amcanion llesiant.

- Canlyniadau'r broses o gynnwys pobl a sut y maent wedi llywio'r gwaith pennu amcanion llesiant.
- Sut mae wedi ystyried safbwyntiau cyrff eraill a'r effaith debygol arnyn nhw ac ar eu hamcanion llesiant.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus egluro yn eu datganiadau llesiant pam y maent o'r farn eu bod wedi pennu amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Felly, dylai datganiad llesiant Llywodraeth Cymru fod yn ffordd ddefnyddiol o gyfleu'r uchod yn glir.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

22 Medi 2022

Annwyl Elin,

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 1 Gorffennaf, ynglŷn â'r Bil Bil Hawliau (y Bil) a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Mehefin, i egluro ein bod yn disgwyl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn, ond y byddai hyn y tu allan i'r dyddiad cau arferol o ddwy wythnos o dan Reol Sefydlog 29.

Fe wnaethom ysgrifennu atoch eto ar 31 Awst i egluro'r oedi pellach o ran gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn, yn gysylltiedig â chymhlethdod y Bil ac ansicrwydd am fwriad ac amserlen Llywodraeth y DU. Nodwyd bryd hynny bod Ail Ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin wedi ei drefnu ar gyfer 12 Medi.

Yn dilyn penodi Prif Weinidog newydd i'r DU, fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth y DU i beidio cynnal yr Ail Ddarlleniad ym mis Medi. Yn ogystal â hynny, cafwyd arwyddion cryf gan Lywodraeth y DU na fydd yn symud ymlaen gyda'r Bil hwn ar ei ffurf gyfredol. Mae'n aneglur ar hyn o bryd a fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, neu a fydd y Bil yn cael ei dynnu'n ôl.

Rydym yn aros am eglurhad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond nid ydym yn disgwyl yr eglurhad hwnnw yn y dyfodol agos. O ganlyniad i hynny, oherwydd yr ansicrwydd hwn am fwriad Llywodraeth y DU, nid yw'n ymddangos yn synhwyrol i symud ymlaen â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar hyn o bryd. Byddai gwneud hynny'n golygu gofyn i'r Senedd dreulio amser yn ystyried cynnig deddfwriaethol nad yw'n cael ei symud ymlaen ar hyn o bryd, ac sydd mewn perygl o gael ei dynnu'n ôl neu ei ddisodli gan gynnig amgen yn fuan.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto pan fydd y sefyllfa yn fwy eglur, ond rydym yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf hon ichi yn y cyfamser, gan ei bod yn bosibl y bydd oedi sylweddol.

Fel yn achos y llythyrau blaenorol y cyfeirir atynt uchod, rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Brif Weinidog Cymru; y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd; Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
|  |  |
| **Jane Hutt AS/MS**<br>Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol<br>Minister for Social Justice | **Mick Antoniw AS/MS**<br>Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Counsel General and Minister for the Constitution |

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

27 Medi 2022

**Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Annwyl Jenny

Yn ei gyfarfod yr wythnos hon, cafodd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad llafar gan y Trefnydd ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried effaith y cyfnod o Alaru Cenedlaethol dros Ei Mawrhydi y Frenhines ar y broses graffu ond nid yw'n cynnig diwygio'r amserlen ar gyfer ystyried y Bil o ganlyniad i hynny.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'ch Pwyllgor – ynghyd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – a byddai'n ddiolchgar pe gallech ymateb i minnau gan amlinellu eich barn ar yr amserlen erbyn hanner dydd, ddydd Gwener 30 Medi, os yw hynny'n bosibl.

Yn gywir,

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Gorffennaf 2022

Annwyl Jenny,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn dilyn fy ymddangosiad yn y Pwyllgor ar 20 Mehefin pan graffwyd ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, gwnaethoch ofyn am rywfaint o wybodaeth ddilynol ac mae'n bleser gennyf nawr ddarparu'r wybodaeth honno.

Gweler atodiad 1 sy'n ymateb i'r cwestiynau a nodwyd yn eich llythyr.

Yn y Pwyllgor, cytunais hefyd roi gwybodaeth am waith i ddatblygu canllawiau statudol ynghylch cymalau contract. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar gynlluniau ehangach i ddatblygu canllawiau statudol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol fel rhan o hynny. Gallaf rannu mwy o wybodaeth am y gwaith hwn pan fydd y Senedd yn dychwelyd ar ôl toriad yr haf, gan gynnwys datblygu canllawiau a chymalau contractau allanoli gwasanaethau ac adeiladu, sy'n ddwy elfen bwysig o'r gwaith hwn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'r Pwyllgor yn ystod y broses o graffu ar y Bil.

Yn gywir

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Holi ac Ateb – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – 4 Gorffennaf 2022

### Cwestiynau cyffredinol am y Bil

1) **Pa ganlyniadau pendant y byddwch yn anelu at eu cyflawni er mwyn cyflawni amcan cyffredinol y Bil o wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant y rhai sy'n eu darparu?**

Amcan cyffredinol y Bil yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol – gan gynnwys drwy wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae nodau'r Bil yn eang ac yn seiliedig ar ffordd o weithio a fydd yn helpu cyrff cyhoeddus i ymateb i'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae llawer o amcanion y Bil yn canolbwyntio ar gyflwyno newid sy'n anodd ei fesur, er enghraifft, mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn canolbwyntio ar sicrhau newid diwylliant o fewn strwythurau presennol, cynnwys nodau i ymwreiddio arweinyddiaeth systemau, sy'n cynnwys ymrwymiad i weledigaeth gyffredin a chonsensws ymhlith rhanddeiliaid ar feysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Er mwyn mesur yr amcan hwn a buddiannau anariannol eraill, mae'n rhaid gwneud gwaith ymholi ansoddol gyda rhanddeiliaid i ganfod eu barn ar y graddau y mae hyn wedi digwydd, a sut y gellir teilwra strwythurau a chyfleoedd i ymgysylltu er mwyn cyflawni'r nodau hirdymor yn well.

Yn unol â'r dull gweithredu ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd canlyniadau sylweddol a phendant mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar sut mae cyrff cyhoeddus yn diwygio eu hamcanion llesiant er mwyn adlewyrchu'r newid i waith teg.

Cafodd y gwaith damcaniaeth newid ar gyfer y Bil ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2021 ac awgrymodd ddata er mwyn mesur y canlyniadau yn nhair prif gydran y Bil, sef gwaith teg, partneriaeth gymdeithasol a chaffael cymdeithasol gyfrifol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ailystyried i adlewyrchu fersiwn derfynol y Bil fel y caiff ei gyflwyno a chaiff canlyniadau eu cadarnhau yng ngwanwyn 2023.

O ran caffael, caiff llwyddiant ei fesur yn nhermau cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau ym mhob un o'r categorïau llesiant. I wneud hyn, bydd angen casglu data perthnasol ac adrodd arnynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r metrigau y bydd eu hangen a nodi bylchau yn y data a gesglir ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwaith teg.

2) **Pa ddangosyddion penodol y byddwch yn eu defnyddio i fesur llwyddiant y Bil o ran cyflawni'r canlyniadau hyn? Er enghraifft sut fyddech chi’n asesu a gafodd y ddeddfwriaeth effaith gadarnhaol ar gysylltiadau diwydiannol neu gadw staff mewn cyrff cyhoeddus?**

Bydd y ddamcaniaeth newid newydd yn cynnwys set o ganlyniadau y cytunwyd arnynt, data penodol a all fesur y canlyniadau, a manylion ynghylch p'un a yw'r data hyn yn cael eu casglu'n barod gan drydydd parti ac y gellir, felly, eu defnyddio i fesur cynnydd. Nodir hefyd os nad oes data cyfredol ar gael ac y byddai angen gwneud gwaith ymchwil cynradd wrth werthuso'r Bil.

Bydd y broses werthuso yn cynnwys cymysgedd o fesurau meintiol ac ansoddol yn dibynnu ar natur y canlyniad. Er enghraifft, wrth edrych ar effeithiau cadarnhaol ar gysylltiadau diwydiannol, asesiad ansoddol (gan ddefnyddio astudiaethau achos, er enghraifft) o'r graddau y mae gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol wedi'u gwreiddio o fewn strwythurau teirochrog fyddai fwyaf priodol. Byddai dulliau ansoddol hefyd yn meithrin dealltwriaeth o ganlyniadau eraill, fel y graddau y mae newid diwylliant i'w weld rhwng cyflogwyr a chyflogeion o ran y ffordd y maent yn datrys problemau yn y gweithle. Mae hyn yn cyferbynnu â chanlyniadau eraill a all gael eu dangos gan fesurau meintiol, er enghraifft, gallai cynnydd o ran y canlyniad ‘creu swyddi o ansawdd uchel’ gael ei asesu gan ddefnyddio mesurau fel % y cyflogeion sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf, lefelau cadw staff ac arolygon o gyflogeion sy'n eu holi am ansawdd eu swyddi.

**3) A allwch nodi tystiolaeth o'r angen i sicrhau mwy o gysondeb ar draws cyrff cyhoeddus i’w gyflawni drwy'r darn hwn o ddeddfwriaeth? Ble mae'r bylchau allweddol yn eich barn chi?**

O ran caffael, mae argymhellion wedi cael eu gwneud mewn adroddiadau, er enghraifft, gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yn adroddiad Adran 20 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn nodi y dylai arferion da gael eu defnyddio'n fwy cyson wrth gyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Nid yw'r adroddiadau'n amlygu unrhyw fylchau allweddol, ond mae pob un ohonynt yn galw am fwy o gysondeb a bydd y ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno fframwaith cydlynol ac yn arwain at ganlyniadau mwy tryloyw.

O ran partneriaeth gymdeithasol, rydym wrthi'n mapio'r holl strwythurau partneriaeth gymdeithasol sydd ar waith ar lefel genedlaethol. Mae gwaith cynnar yn awgrymu bod cyfoeth o strwythurau a dulliau gweithredu yn bodoli ar y lefel hon yn unig. Os yw'r un peth yn wir am y sector cyhoeddus, mae amrywiaeth o ddulliau gweithredu. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhagweld system o bartneriaethau cymdeithasol ledled Cymru ac er mwyn cyflawni hyn, rhaid cael cysondeb a chysylltiadau priodol rhwng gwahanol fforymau.

**4) Gwnaethoch sôn yn eich tystiolaeth lafar y bydd mwy o dryloywder yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni amcanion y Bil. A allwch egluro pam yr ydych wedi dewis y mecanwaith hwn, a pham y bydd yn fwy effeithiol na dewisiadau eraill?**

Gwnaethom ofyn am farn ar fecanweithiau gorfodi pan wnaethom ymgynghori ar y fersiwn ddrafft o'r Bil yn ystod gwanwyn y llynedd. Roedd gan randdeiliaid safbwyntiau gwahanol ynghylch rhinweddau unrhyw fath o fecanweithiau gorfodi cyfreithiol i sicrhau bod y rhai sy'n ddarostyngedig i'r

dyletswyddau amrywiol yn cydymffurfio â nhw er mwyn sicrhau bod y canlyniadau dan sylw'n cael eu cyflawni. Roedd rhai o'r farn nad oedd angen unrhyw fecanwaith gorfodi ac roedd eraill o'r farn y dylid cyflwyno cyfundrefn ddirwyo.

Gwnaethom bwyso a mesur yr opsiynau a'r safbwyntiau yn ofalus o safbwynt y gofynion roeddem yn eu gosod ar gyrff cyhoeddus. Rydym wedi penderfynu y byddai ceisio cyflwyno unrhyw gyfundrefn orfodi gosbol yn mynd yn groes i ysbryd partneriaeth gymdeithasol. Yn benodol, gallai cyfundrefn ddirwyo gael effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r system rydym yn ei chreu drwy'r Bil yn dibynnu ar dryloywder ac adrodd yn rheolaidd, ac mae'n rhoi cyfrifoldeb ar bob partner i ymgysylltu'n llawn a dwyn ei gilydd i gyfrif. Bydd Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cymru (CPG) yn gallu rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am effeithiolrwydd y trefniadau newydd ac argymell newidiadau lle bo hynny'n briodol.

**Partneriaeth gymdeithasol**

5) **A allwch roi enghraifft ymarferol o achos pan fyddai'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol wedi sicrhau gwell canlyniad mewn corff cyhoeddus wrth bennu ei amcanion llesiant neu wneud penderfyniadau strategol?**

Mae'n anodd ateb y cwestiwn hwn gan ei fod yn galw am ymateb damcaniaethol sy'n golygu y byddai angen i mi ragdybio canlyniad nad yw'n hysbys. Fodd bynnag, gallaf gyfeirio at enghraifft lle mae partneriaeth gymdeithasol wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol mewn perthynas â llesiant, sef cyd-greu polisi Parch a Datrys ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Ym mis Mehefin 2021, lansiodd GIG Cymru bolisi Parch a Datrys newydd ar gyfer holl gyflogwyr y GIG yng Nghymru i ddisodli'r polisïau cwynion cyflogaeth ac urddas yn y gwaith a oedd ar waith ar y pryd. Cafodd y polisi hwn ei ddatblygu mewn partneriaeth â chyflogwyr ac undebau llafur a'i gymeradwyo yn Fforwm Partneriaeth Cymru (corff partneriaeth gymdeithasol teirochrog y sector Iechyd). Y peth pwysig am y polisi hwn yw na ellir ei ddiwygio heb gytundeb y fforwm hwn, sy'n helpu i sicrhau cysondeb ymhlith cyflogwyr y GIG yng Nghymru. Mae'r polisi Parch a Datrys wedi cael ei ddatblygu fel rhan o ddull gweithredu sy'n wahanol iawn i bolisïau a gweithdrefnau traddodiadol ar gyfer Cymru gyfan, gyda chyflogwyr ac undebau yn dod ynghyd i gyd-ddylunio ffordd newydd o weithio yn seiliedig ar brofiadau negyddol neu heriol y maent wedi'u cael yn aml wrth ddelio â chwynion cyflogaeth a chwynion urddas yn y gwaith. Mae'r polisi yn rhoi'r pwyslais ar ymyrraeth gynnar gan undebau a rheolwyr er mwyn atal problemau drwy ddatblygu cydberthnasau gwaith a gweithleoedd iachach. Mae hyn yn gyson â gwaith ehangach sy'n cael ei wneud ledled GIG Cymru gan sefydliadau ym maes gwerthoedd ac ymddygiad, yn ogystal â'r dulliau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal

Cymdeithasol, fel arweinyddiaeth dosturiol. Mae adolygiad ar y cyd o'r polisi yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

6) **Pa waith sydd wedi'i wneud i ddeall a mynd i'r afael â materion capasiti a allai atal sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur llai rhag ymgysylltu'n llawn â'r dull partneriaeth gymdeithasol a ddefnyddir yn y Bil?**

Cafodd cynigion ar gyfer y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) eu datblygu mewn cydweithrediad agos â phartneriaid cymdeithasol ac ymgynghorwyd yn ffurfiol arnynt.

Lle bo hynny'n bosibl, maent yn anelu at adeiladu ar ddulliau presennol sydd ar waith mewn perthynas â phartneriaeth gymdeithasol a rhoi sicrwydd y bydd trefniadau'n parhau yn y dyfodol. O safbwynt yr CPG, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi sawl gwaith y mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfarfod bob blwyddyn. Byddai'n rhaid cytuno ar gyfarfodydd ychwanegol neu gynigion i sefydlu is-grwpiau mewn partneriaeth gymdeithasol, sy'n sicrhau bod sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur yn chwarae rhan lawn mewn datblygiadau ac yn gallu cytuno yn seiliedig ar eu capasiti.

Deallaf fod nifer sylweddol o strwythurau partneriaeth gymdeithasol wedi datblygu ar lefel genedlaethol a byddwn yn rhagweld y bydd yr CPG, fel rhan o'i ddyletswyddau, yn rhoi cyngor i Weinidogion ar briodoldeb y trefniadau hyn. I baratoi ar gyfer hynny, rydym wedi bod yn mapio strwythurau presennol ar y lefel genedlaethol ac rydym yn ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol fel rhan o'r gwaith hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y gorffennol i'w helpu i ddatblygu cydberthnasau partneriaeth gymdeithasol. Byddwn yn cadw llygad ar yr angen am ddatblygiad tebyg yn y dyfodol.

7) **A ydych yn bwriadu cyflwyno mecanwaith cydymffurfio ar gyfer y ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol? Os felly, a allwch roi manylion am sut y bydd hyn yn gweithredu.**

Mae'r system rydym yn ei chreu drwy'r Bil yn dibynnu ar dryloywder ac adrodd yn rheolaidd er mwyn cefnogi gwelliannau o ran partneriaeth gymdeithasol.

Bydd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd lunio a chyflwyno adroddiad blynyddol yn nodi sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, y cytunwyd arno gan eu hundebau llafur cydnabyddedig neu (lle bo hynny'n briodol) unrhyw un arall sy'n cynrychioli eu staff. Caiff yr adroddiadau hyn eu hystyried gan yr CPG.

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd lunio adroddiad blynyddol yn nodi sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei gyflwyno i'r CPG a'i osod gerbron y Senedd fel y gellir craffu arno. Rhaid i'r CPG gytuno ar yr adroddiad neu rhaid cynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.

Bydd yr CPG yn gallu rhoi gwybodaeth i Weinidogion Cymru am effeithiolrwydd y trefniadau newydd ac argymell newidiadau os yw hynny'n briodol.

Fel y nodwyd gennym yng nghwestiwn 4 uchod, yn dilyn ymarfer ymgynghori helaeth ar y fersiwn ddrafft o'r Bil, gwnaethom benderfynu y byddai ceisio cyflwyno unrhyw gyfundrefn orfodi gosbol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau a gyflwynir gan y Bil yn mynd yn groes i ysbryd partneriaeth gymdeithasol.

**Dewis aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Gymdeithasol**

8) **Gwnaethoch ddweud y byddai'r broses ddethol yn cael ei chynnal yn unol â'r ffordd y gwneir Penodiadau Cyhoeddus. Byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor weld manyleb y person a'r swydd ddisgrifiad ar gyfer penodiadau o'r fath er mwyn deall yr effaith y disgwylir i'r penodeion llwyddiannus ei chael. Pryd ydych chi'n disgwyl i ddrafftiau fod ar gael i'r Pwyllgor graffu arnynt?**

Y bwriad yn bendant yw bod proses ddethol yr CPG yn dilyn yr un egwyddorion yn fras â'r rhai sy'n sail i'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Er i ni ystyried mabwysiadu'r broses penodiadau cyhoeddus lawn ar gyfer yr CPG, nid yw hyn yn ymarferol am na fyddai'n gydnaws â'r broses enwebu a nodir yn y Bil. Ni fyddai'n bosibl plethu proses gyflogaeth ei natur, fel sydd ei hangen ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus, â phroses lle caiff unigolion eu henwebu gan gyrff cynrychioliadol.

Fodd bynnag, rydym yn ystyried ffyrdd y gellir adlewyrchu neu fabwysiadu elfennau o'r broses Penodiadau Cyhoeddus fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer aelodau'r CPG. Mae hyn yn cynnwys ystyried a fyddai angen manylebau person a swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y broses ddethol.

**<u>Caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol</u>**

9) **Sut mae'r Bil hwn yn rhyngweithio â Bil Caffael Llywodraeth y DU, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael ar ddatblygu'r darn hwn o ddeddfwriaeth?**

Ymwneud â'r broses gaffael mae Bil Diwygio Caffael y DU yn bennaf. Mewn cyferbyniad, mae'r Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn canolbwyntio ar sut mae defnyddio caffael cyhoeddus i gyflawni'r nodau llesiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwell.

Yn gyffredinol, mae Bil y DU yn disodli'r ddeddfwriaeth gaffael flaenorol, tra bod y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn

canolbwyntio ar nodau llesiant, adrodd ar ganlyniadau, rheoli contractau, goruchwylio ac atebolrwydd.

Roeddem eisoes wedi gwneud llawer o gynnydd wrth ddatblygu ein Bil cyn i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei Phapur Gwyrdd ar Ddiwygio Caffael. Fodd bynnag, rydym wedi myfyrio ar ddull gweithredu'r DU ac wedi cymryd camau i sicrhau cysondeb lle bo hynny'n bosibl.

**10) Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at Lywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill am y Bil hwn fel y mae'n dod o dan y Fframwaith Cyffredin Caffael Cyhoeddus. A gododd unrhyw un o weinyddiaethau eraill y DU bryderon gyda chi am y Bil? Os felly, beth oedd eu pryderon a sut wnaethoch chi ymateb?**

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan Lywodraeth y DU na'r llywodraethau datganoledig eraill.

**11) Wrth ddatblygu'r Bil hwn, allwch chi egluro sut y mae'r mesurau sydd ar waith yn yr Alban wedi dylanwadu ar gynnwys y Bil, a pham eich bod wedi dewis defnyddio dull gwahanol mewn rhai achosion?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod rhai darpariaethau caffael yn y Bil wedi'u hysbrydoli gan Ddeddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014, yn enwedig y dyletswyddau caffael cynaliadwy ac adrodd.

Rydym wedi dewis dull gwahanol am nad yw deddfwriaeth yr Alban yn cynnwys dyletswyddau'n ymwneud â chydymffurfio a gorfodi, ac mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth gyhoeddedig sy'n ein galluogi i gymharu canlyniadau cynaliadwy ar hyd y gyfres amser. Nid yw deddfwriaeth yr Alban yn cynnwys dyletswyddau penodol ar reoli contractau chwaith. Mae'r rhain yn flaenoriaethau yng Nghymru.

**12) Mae'r memorandwm esboniadol (t.37) yn nodi bod deddfwriaeth gaffael yr Alban yn dangos, hyd yn oed pan fydd rheoliadau ar waith, ei bod yn cymryd amser i gyrff cyhoeddus roi mesurau newydd ar waith yn gyson. Pa mor hir, yn eich barn chi, y bydd yn ei gymryd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu'r mesurau yn y Bil hwn yn gyson a pham?**

Bydd y broses weithredu yn dechrau gyda gwaith i ddatblygu canllawiau statudol. Caiff partneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eu gwahodd i gyfrannu at y gwaith datblygu. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno canllawiau a chymorth ar gyfer cyrff cyhoeddus, ac ar gyfer cyflenwyr drwy Busnes Cymru.

Ni ddaw pob un o'r dyletswyddau i rym ar unwaith nac ar yr un pryd. Er enghraifft, ni fydd yn bosibl cyflwyno adroddiadau nes bod manylion yr hyn sy'n ofynnol wedi cael eu cyhoeddi yn y canllawiau statudol a bod cylch blynyddol wedi cael ei gwblhau. Bydd rhagor o fanylion ynghylch hyn ar gael maes o law.

13) **Sut y byddwch yn lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gyrff cyhoeddus weithredu'r mesurau caffael yn y Bil hwn yn gyson?**

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus a chyflenwyr yn barod ar gyfer yr adeg pan fydd y Bil hwn a Bil Diwygio Caffael y DU yn dod i rym. Mae'r Bil yn cyflwyno mwy o dryloywder, trefniadau i gasglu data ar brosesau a chanlyniadau ac adrodd arnynt, a phrosesau craffu rheolaidd gan yr CPG a'i is-grŵp caffael. Dyma'r ffyrdd y gallwn wneud cynnydd cyflymach tuag at gymhwyso'r dyletswyddau'n gyson a chyflawni'r canlyniadau disgwyliedig.

**14) Mae adran 41 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ymchwilio i'r modd y mae awdurdod contractio yn cynnal caffael. A allwch nodi o dan ba amgylchiadau y byddech yn rhagweld defnyddio'r pwerau hyn?**

Mae'r Bil yn darparu bod yr CPG, gyda chymorth is-grŵp caffael cyhoeddus, yn adolygu crynodebau o adroddiadau blynyddol ac yn rhoi cyngor i Weinidogion. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gweld pa sefydliadau neu sectorau sy'n gwneud cynnydd arafach yn erbyn amcanion a chynnal ymchwiliadau. Gall materion eraill, fel diffyg ymgysylltiad â'r dyletswyddau rheoli contractau ar gyfer allanoli gwasanaethau ac adeiladu, ysgogi ymchwiliad hefyd.

**15) Mae'r Memorandwm Esboniadol yn tynnu sylw at y ffaith y bydd y ddyletswydd adeiladu yn cael ei defnyddio fel prawf i weld a ddylid ymestyn dyletswyddau tebyg i sectorau eraill yn ddiweddarach. Pa sectorau eraill ydych chi'n ystyried cyflwyno dyletswyddau rheoli contractau iddynt, a pha feini prawf y byddwch yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid gwneud hyn? O ystyried y bwriad i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd, a allwch egluro pam na roddwyd mwy o sylw i gaffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd a chryfhau'r economi sylfaenol i wella diogelwch bwyd?**

Gwnaethom gynnwys dyletswyddau rheoli contractau ar gyfer prosiectau adeiladu mawr am fod adeiladu yn cyfrif am oddeutu traean o gyfanswm gwariant caffael cyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac am ein bod yn gwybod bod ganddo gadwyni cyflenwi cymhleth lle mae risg sylweddol a chyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflawni canlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Byddwn yn dysgu o'r ddyletswydd rheoli contractau, ond nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i'w hymestyn i sectorau penodol eraill. Rydym yn

cydnabod y cyfleoedd a gynigir o ran caffael mwy o fwyd o Gymru a byddwn yn ystyried sut y gall y canllawiau statudol gefnogi hyn.

**16) Yn yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, nododd staff caffael y sector cyhoeddus bryderon am eu gallu i gyflawni gofynion y Bil, yn enwedig mewn perthynas â monitro contractau ar ôl caffael. Sut ydych chi’n bwriadu mynd i’r afael â’r pryderon hyn?**

Bydd yn ofynnol i staff caffael a staff rheoli contractau o fewn cyrff cyhoeddus weithio o fewn fframwaith deddfwriaethol gwahanol iawn pan ddaw'r Bil hwn a Bil Diwygio Caffael y DU i rym. Dyma un o'r rhesymau dros ganolbwyntio ar reoli contractau adeiladu mawr i ddechrau.

Byddwn yn lleihau anawsterau i'r eithaf ac yn cyflawni cynifer o ganlyniadau cadarnhaol â phosibl os byddwn yn sicrhau y gall y dyletswyddau gael eu cymhwyso'n gymesur, a gaiff ei gefnogi drwy'r canllawiau, ein bod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r canllawiau, a'n bod yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r broses weithredu. Dyma'r blaenoriaethau i ni.

**17) Mae gohebiaeth i Weinidogion gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Maint Cymru yn cwestiynu pam nad yw agwedd cyfrifoldeb byd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi’i hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth ddrafft ar gaffael cyhoeddus. Byddai’n ddefnyddiol cael awgrym cychwynnol ynghylch pam y mae hyn wedi’i hepgor o’r Bil drafft.**

Mae'r ddeddfwriaeth yn cysylltu caffael cymdeithasol gyfrifol yn uniongyrchol â'r nodau llesiant, sy'n cynnwys cyfrifoldeb byd-eang.

Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, caiff cyfrifoldeb byd-eang ei osod yng nghyd-destun mynd i'r afael â chanlyniadau yng Nghymru. Caiff ei ddisgrifio fel a ganlyn: “[cenedl sydd] wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang.” Bydd yr un peth yn wir am y Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol a chaiff hyn ei esbonio yn y canllawiau statudol.

## Dod i rym

**18) Mae adran 48(1) o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddod â'r ddeddfwriaeth hon i rym ar ddiwrnod o'u dewis. Os caiff ei phasio gan y Senedd, pryd yr ydych yn bwriadu i'r ddeddfwriaeth hon ddod i rym?**

Caiff yr CPG ei sefydlu ar ôl i ddarpariaethau perthnasol ddod i rym a disgwylir iddo ddod yn weithredol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Bwriedir cyflwyno darpariaethau eraill y Bil cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol y cytunodd y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion i'w darparu**

**19) Rhagor o wybodaeth am yr adnoddau a ddefnyddiwyd i lunio'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys y dystiolaeth ryngwladol a ddefnyddiwyd.**

Yn ystod camau cynnar y broses o ddatblygu'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), cymharodd y tîm y rôl y mae deddfwriaeth yn ei chwarae wrth ysgogi caffael cymdeithasol gyfrifol ym mhob un o lywodraethau'r DU. Roedd hyn yn cynnwys rhannau o Ddeddf Diwygio Caffael (Yr Alban) 2014, Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus yn Lloegr, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Edrychodd y tîm hefyd ar gyfundrefnau goruchwylio a chydymffurfio ar gyfer caffael cyhoeddus mewn gwahanol wledydd ledled y byd, gan gynnwys yn Ewrop, Gogledd America, Affrica ac Awstralia. Y casgliad oedd, er bod y rhan fwyaf o gyfundrefnau'n ymddangos fel pe baent yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â gofynion tendro fel y nodir mewn deddfwriaeth gaffael genedlaethol, nid oedd llawer ohonynt yn canolbwyntio ar fonitro unrhyw ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol a gyflawnir drwy gaffael, hyd yn oed os yw'r ddeddfwriaeth gaffael sylfaenol yn cynnwys y mesurau hyn.

Yn ddiweddarach, cyflawnodd y tîm ymchwil yn Llywodraeth Cymru ddarn arall o waith ar y llenyddiaeth academaidd ar ganlyniadau Cymdeithasol Gyfrifol (cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol) drwy gaffael, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Caiff y gwaith hwn ei grynhoi yn y Memorandwm Esboniadol. Ychydig iawn a welwyd ar ganlyniadau diwylliannol ond roedd mwy o lenyddiaeth ar gael am ganlyniadau amgylcheddol.

**20) Dadansoddiad o ddatblygiadau mewn perthynas â bwyd yr Alban ac a yw deddfwriaeth neu bolisi wedi arwain at welliannau.**

Rydym wedi dysgu o brofiad yr Alban o gyflwyno prydau ysgol am ddim drwy ystyried eu gwaith cynllunio gydag Awdurdodau Lleol, yr heriau y maent wedi'u hwynebu o ran darparu, a'r ffordd y maent wedi rheoli prosesau cyfathrebu ag Awdurdodau Lleol, ysgolion a theuluoedd. Mae deddfwriaeth yn un ffordd o roi polisi ar waith ac mae'n anodd dadansoddi faint o welliant

sydd wedi deillio o bolisi o gymharu â'r ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r polisi hwnnw ar waith.

Mae mwy o wybodaeth am gaffael bwyd ar gael yn atodiad 2.

**21) A yw elfennau caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol yn y Bil yn gymwys i estyniadau contract.**

Bydd y dyletswyddau rheoli contractau yn gymwys i bob contract allanoli gwasanaethau ac adeiladu mawr newydd. Ni fyddant yn cael eu cymhwyso'n ôl-weithredol i gontractau presennol. Mae estyniadau contract yn seiliedig ar delerau contract presennol. Byddai angen negodi unrhyw newidiadau a'u cyflwyno o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.

**Atodiad – Caffael bwyd a dysgu oddi wrth bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth yr Alban**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi gofyn am *"ddadansoddiad o ddatblygiadau mewn perthynas â bwyd yr Alban ac a yw deddfwriaeth neu bolisi wedi arwain at welliannau".*

Mae swyddogion o'r timau Economi Sylfaenol a Phrydau Ysgol am Ddim wedi darparu'r wybodaeth ganlynol, sy'n ateb y cwestiwn uchod mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, ac yna'n rhoi diweddariad ar waith caffael bwyd yn fwy cyffredinol. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar sut y gellir cynnwys arferion da o ran caffael bwyd yn y canllawiau statudol i gefnogi'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

Dysgu gwersi gan yr Alban ar brydau ysgol am ddim

Wrth ystyried gweithredu'r ymrwymiad i brydau ysgol am ddim i bawb, mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu llawer gan yr Alban. Mae swyddogion yn cwrdd yn aml â'u swyddogion cyfatebol i ddysgu am eu gwaith cynllunio gydag awdurdodau lleol, yr heriau y maent wedi'u hwynebu o ran darparu, sut y maent wedi rheoli prosesau cyfathrebu ag ALlau/ysgolion a theuluoedd ac, yn fwyaf diweddar, sesiwn â rhai o'u deietegwyr ynghylch rheoli deietau arbennig.

Mae bwrdd prosiect wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod gwaith ar gaffael bwyd mewn rhannau gwahanol o Lywodraeth Cymru yn cael ei ddwyn ynghyd. Mae hyn yn cynnwys rhaglen yr Economi Sylfaenol sy'n helpu Cymdeithas Arlwyo'r Awdurdodau Lleol i newid i brydau ysgol am ddim i bawb yn ogystal ag ystyried yr hyn y bydd angen ei wneud er mwyn cysoni blaenoriaethau polisi, gan gynnwys o ran iechyd y cyhoedd, argyfyngau'n ymwneud â'r hinsawdd a natur ac ymdrechion i symud tuag at system fwyd sy'n fwy cynaliadwy. Mae'r tîm yn gweithio'n agos hefyd gyda Chyngor Caerffili i sicrhau bod mwy o fwyd o Gymru yn cael ei gynnwys mewn prydau ysgol drwy fframweithiau bwyd sector cyhoeddus Cymru a arweinir ganddo.

Diweddariad ar gaffael bwyd

Mae'r sector bwyd yn hollbwysig yng Nghymru am y rhesymau canlynol:

(a) mae'n rhan allweddol o'r Economi Sylfaenol, gan gynnig cyfleoedd gwaith gwerth uchel a'r potensial i fod yn fwy hunangynhaliol yn ystod y cyfnod anwadal hwn;
(b) mae'n hanfodol i iechyd a llesiant;
(c) gall chwarae rôl bwysig wrth helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau sero net.

Mae trefniadau caffael y sector cyhoeddus yn chwarae rôl bwysig wrth ail-leoleiddio'r gadwyn fwyd. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £94.4m ar fwyd ac arlwyo ac er bod y ffigur hwnnw'n ymddangos yn gymharol isel o bosibl (o ystyried ei fod yn cyfateb yn fras â throsiant un uwch-archfarchnad Tesco) o gymharu â gwerth y diwydiant manwerthu bwyd, sef £3bn, mae'n dal i fod yn farchnad atyniadol i gynhyrchwyr a chyflenwyr yng Nghymru ac yn gyfle enfawr ar gyfer cyflenwadau lleol.

Mae cyfle mawr i leihau allyriadau carbon yng nghadwyni cyflenwi bwyd y sector cyhoeddus drwy geisio defnyddio bwyd mor agos â phosibl at y man cynhyrchu. Mae hyn yn sicrhau cadwyni cyflenwi byrrach a llai o allyriadau CO2 sy'n gysylltiedig â threfniadau dosbarthu a danfon hir. Mae prosesau cynhyrchu bwyd cynaliadwy hefyd yn bwysig er mwyn lleihau niwed i'r amgylchedd naturiol.

Mae tîm yr Economi Sylfaenol wedi comisiynu arolwg o drefniadau caffael bwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn creu darlun o wariant ar gaffael bwyd ledled Cymru, faint o fwyd o Gymru a gyflenwir ac agweddau/rhwystrau o ran prynu cynnyrch o Gymru. Mae'r ochr gyflenwi wedi cael ei chynnwys hefyd er mwyn nodi rhwystrau i gyflenwi bwyd i'r sector cyhoeddus. Bydd canlyniadau'r arolwg yn darparu data sylfaenol cyfoethog a fydd yn atgyfnerthu ein gwaith yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau caffael “Prynu Bwyd Lleol a Chynaliadwy” ar gyfer pob contract/cytundeb fframwaith bwyd er mwyn sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl ar gael i fusnesau bwyd yng Nghymru a bod canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu cyflawni. Bydd y canllawiau hyn yn annog newid o bwyslais ar y costau isaf mewn tendrau bwyd, pwysoliad uwch i amcanion cymdeithasol/llesiant a bod meini prawf dyfarnu contractau yn cynnwys buddiannau ehangach fel swyddi/hyfforddiant, gwaith teg, masnachu moesegol, llai o allyriadau CO2, bwyd a gynhyrchir o fewn radiws penodol ac ati, a bod pob elfen yn cael sgôr sy'n adlewyrchu ei phwysigrwydd.

Mae cronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol wedi cael ei lansio a bwyd fydd un o'r sectorau a gaiff eu targedu. Mae'r Gronfa wedi ariannu'r canlynol:

- ymgyrch gweithlu cynaliadwy yn y diwydiant Bwyd a Diod;
- cynllun grant i ariannu achrediadau diogelwch bwyd ar gyfer 46 o BBaChau bwyd yng Nghymru fel y gallant chwarae rhan fwy blaenllaw mewn cadwyni cyflenwi lleol;
- astudiaeth gwmpasu gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru yn edrych ar seilwaith, logisteg a dosbarthu yn ogystal â ‘Chynllun Newydd-ddyfodiaid’ i ddiogelu'r proffesiwn i'r dyfodol, datblygu capasiti a sicrhau cymunedau pysgota mwy cydnerth.

Mae prosiectau eraill yn cynnwys:

**Prosiect Cronfa Her Cyngor Sir Caerfyrddin**

- Rhoddwyd cyllid i Gyngor Sir Caerfyrddin yn 2021 i lunio adroddiad yn edrych ar sut i gyflenwi mwy o fwyd lleol i ysgolion, lleihau allyriadau CO2 ynghyd â meithrin dealltwriaeth well o gapasiti a gallu cynhyrchwyr lleol. Canfu'r gwaith hwn fod paru'r cyflenwad bwyd â'r galw am fwyd yn rhan sylweddol o'r her o roi mwy o fwyd lleol ar blât y sector cyhoeddus, a nodwyd bod capasiti llawer o gynhyrchwyr lleol yn broblem.

- Mae sawl un o argymhellion yr adroddiad yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Drwy Gronfa Cefnogi Cwmnïau Lleol Rhaglen yr Economi Sylfaenol, mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Chyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu hariannu

i gynnal astudiaeth ddichonoldeb o fodel danfon coginio/rhewi ar gyfer prydau ysbytai/ysgolion gan ddefnyddio bwyd lleol.

**Bwrdd Iechyd Cwm Taf**

- Mae uned yr Economi Sylfaenol wedi cefnogi'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (a gaiff ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf) i gymhwyso strategaethau entrepreneuriaeth gymdeithasol i'r sector bwyd gan ddadansoddi'r gadwyn gyflenwi o'r fferm i'r claf yn yr ysbyty. Mae opsiynau i wneud hyn yn ehangach yn y sector cyhoeddus yn cael eu hystyried.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon